



MODEL GWEITHREDU TARGEDAU FFINIAU

Drafft ar gyfer adborth

Model Gweithredu Targedau Ffiniau

Cynnwys

Model Gweithredu Targedau Ffiniau

Cyflwyniad

Rhagair gan y Gweinidog

Crynodeb Gweithredol

Cefndir a chyd-destun y ddogfen hon

Model newydd ar gyfer mewnfurion

Amserlen i'w gweithredu

Sut mae hyn yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ac ar gyfer Nwyddau Cymhwys Gogledd Iwerddon sy'n cyrraedd o Iwerddon

Sut y byddwn yn casglu adborth rhanddeiliaid

Cwestiynau allweddol yr ydym am eu profi gyda rhanddeiliaid

Sut i ymateb:

Adborth ysgrifenedig

Digwyddiadau rhanddeiliaid

Sut y defnyddir yr ymatebion?

Canllaw i'r Ddogfen hon

Adran 1: Model Gweithredu Targed Ffiniau ar gyfer mewnfurion

1.1 Trosolwg o'r model newydd

Crynodeb o'r model newydd ar gyfer mewnfurion

Manteision y model i'r DU

Astudiaeth Achos: Twymyn Moch Affricanaidd a Rheolaethau Ffiniau

Dull trawslywodraethol o awdurdodi Masnachwyr Dibynadwy

1.2 Y model Diogelwch newydd

Cefndir

Dod â'r hepgoriadau ar gyfer Datganiadau Diogelwch i ben ar gyfer mewnfurion yr UE

Datblygu'r drefn newydd

Manylu ar y newidiadau o fewn y model newydd ar gyfer Diogelwch

Dileu gofynion Diogelwch ar gyfer symudiadau allforio risg isel

Gweithredwyr Parseli Cyflym

Proses diwygio datganiadau diogelwch

1.3 Y model nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol newydd ar gyfer Prydain

Cefndir

Trosolwg o'r model ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

Diogelwch Bwyd

Llywio'r adran hon o'r ddogfen

Mewnforio Anifeiliaid Byw, Cynhyrchion Tarddiad Anifeiliaid a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Catgoreiddio risg

Rheolaethau a gaiff eu cymhwyso i anifeiliaid byw, eginol a chynhyrchion anifeiliaid yn seiliedig ar eu categori risg

Gwiriadau Ffin yn achos Anifeiliaid Byw

Gwiriadau Ffin yn achos Cynhyrchion Anifeiliaid

Llywodraethu

Dull Masnachwr dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid

Crynodeb o'r cynlluniau masnachwyr dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid

Cynllun Masnachwr Dibynadwy Achrededig

Cynllun Sicrwydd Technoleg (TAS)

Bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid (HRFNAO)

Mewnforio Planhigion a Chynhyrchion Planhigion o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Catgoreiddio risg

Rheolaethau a fydd yn cael eu cymhwyso i Blanhigion a Chynhyrchion Planhigion

Gwiriadau Ffin yn achos Planhigion a Chynhyrchion Planhigion

Llywodraethu

Dull Masnachwr Dibynadwy ar gyfer Planhigion - Statws Gweithredwr Awdurdodedig

Crynodeb o'r cynllun Statws Gweithredwr Awdurdodedig (AOS) ar gyfer mewnforio Planhigion a Chynhyrchion Planhigion

Gwrthdaro Buddiannau

Cydymffurfio

Dyluniad y Cynlluniau Peilot ac amserlenni

Symleiddio a digideiddio tystysgrifau iechyd

Amserlen ar gyfer Gweithredu'r model Glanweithiol a Ffytolanweithiol newydd

Cefnogi modelau busnes gwahanol ar gyfer mewnfario llwythi grwpiau o nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

Tramwy nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol trwy Brydain o dan y model newydd

Ail-allforio nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol

Gofynion mewnfario eraill ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

Mae rheolaethau mewnfario penodol ar rai cynhyrchion sy'n deillio o agweddau penodol ar ddeddfwriaeth y DU neu ein haelodaeth o gonfensiynau rhyngwladol sy'n ymdrin â symud y nwyddau hyn. Nid yw Model Gweithredu Targed Ffiniau'n cynnig newid y rheolaethau hyn a byddant yn berthnasol i fewnforion o'r UE.

Confensiwn ar gyfer y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Mewn Perygl o Ffawna Gwyllt a Phlanhigion (CITES)

Nwyddau organig

Pren

Dogfennaeth pysgota - Pysgota anghyfreithlon, nas cofnodir ac anrheoledig (IUU)

Adran 2: Diwydiant ffiniau a gofynion porthladdoedd

Seilwaith

Gofynion seilwaith ar gyfer rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol

Safleoedd Mewndirol

Trefniadau codi tâl mewn Safleoedd Mewndirol

Cyfleusterau anifeiliaid byw

Seilwaith arall ar y ffin

Systemau aliniad

Adran 3: Amserlen gweithredu ar gyfer y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Amserlen y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Amserlen ar gyfer gweithredu rheolaethau ar nwyddau Gwyddelig sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o Iwerddon i borthladdoedd Prydain

Llywio'r adran hon

Amserlen A: Amserlen grynodol ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau

Amserlen B: Cynllun trawsnewid ffiniau cyffredinol

Amserlen darparu Ffenestr Masnach Sengl y DU

Adran 4: Gwella'r ffin i allforwyr

Cefnogi allforwyr drwy wella ein model mewnfario

Adeiladu ar ein cefnogaeth bresennol i allforwyr

Gwella prosesau ffin i allforwyr

Adran 5: Newidiadau i'r model teithwyr

Proses y Teithwyr

Ymgysylltu â diwydiant

Atodiadau

Atodiad A: Set ddata ENS Newydd (Datganiad Diogelwch mewnforio) (24 maes)

Meysydd gorfodol

Meysydd Dewisol

Atodiad B: Teithiau Defnyddwyr Diogelwch

Atodiad C: Teithiau defnyddwyr glanweithiol a ffytolanweithiol

Atodiad D - Rhagor o fanylion am ofynion mewnforio planhigion, wedi'u rhannu yn ôl lefel risg

Atodiad E (1 o 2): Amllderau arolygiadau mewnforio iechyd planhigion

Atodiad E (2 o 2): Amllderau arolygiadau mewnforio iechyd planhigion

Atodiad F: Mapiau o Safleoedd Rheoli Ffiniau

Cyflwyniad


Rhagair gan y Gweinidog

Pan adawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd yn 2020, daethom yn gyfrifol am ddylunio a gweithredu ein trefniadau ffiniau ein hunain, bioddiogelwch, iechyd a lles anifeiliaid, ac elfennau diogelwch bwyd sydd wedi'u datganoli i Lywodraethau Cymru a'r Alban. Rhoddodd hyn gyfle mawr i ni; y rhyddid i gael rhagor o reolaeth dros nwyddau sy'n dod i mewn i'n gwlad ac i sicrhau ein bod yn defnyddio datblygiadau mewn technoleg i symleiddio a mireinio prosesau masnach mewnforio ac allforio ar gyfer busnes. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb a'r cyfle i ni reoli nwyddau sy'n dod i'n gwlad ac i sicrhau ein bod yn defnyddio datblygiadau mewn technoleg i symleiddio a mireinio prosesau masnach mewnforio ac allforio ar gyfer busnes.

Mae'r Model Gweithredu Targed Ffiniau, a gyhoeddwyd yma ar ffurf ddrafft, yn nodi model newydd ar gyfer mewnforio nwyddau i'r DU o wledydd y tu mewn a'r tu allan i'r UE. Bydd yn ein symud yn agosach at ein nod o greu'r ffin fwyaf effeithiol yn y byd, drwy gyflwyno gwell trefn o ran rheolaethau glanweithiol, ffytolanweithiol a diogelwch ar fewnforion. Mae'r rheolaethau hyn yn hanfodol i gynnal ein bioddiogelwch a byddant yn ein diogelu ni a'n hamgylchedd yn well rhag plâu a chlefydau ymledol, yn diogelu iechyd y cyhoedd, yn darparu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta wrth gynnal diogelwch cyflenwad i ddefnyddwyr, ac amharu ar weithgarwch troseddol cyn y gall niweidio ein cymunedau.

Wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad o dros £1 biliwn ar gyfer trawsnewid ffiniau ar draws y cyfnod adolygu gwariant hwn, mae'r model hwn yn dilyn dull o reoli ein ffin ar sail data, gan ddefnyddio technoleg i leihau'r llwythi o waith papur y mae cwmnïau'n gorfod eu cwblhau ar hyn o bryd pan fyddant yn gwneud busnes. Bydd yn dileu'r dull beichus a rhwystredig a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynnal gwiriadau, gan roi yn ei le' system wedi'i thargedu'n fwy, yn seiliedig ar risg ar sail tystiolaeth a data.

Er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer parodrwydd priodol, byddwn yn gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau hwn ar draws tair carreg filltir rhwng diwedd mis Hydref eleni a 31 Hydref 2024. Bydd masnachwyr, porthladdoedd, swyddogion iechyd porthladdoedd, cwmnïau logisteg a thrafnidiaeth a chwmnïau technoleg yn hanfodol i gyflawni'r dull newydd a nodir yn y ddogfen hon a byddwn yn parhau i weithio gyda phob un dros yr wythnosau nesaf er mwyn ei roi ar waith.



Baroness Neville-Rolfe DBE CMG,
Minister of State, Cabinet Office



Rt Hon Lord Benyon
Minister for Biosecurity, Marine and Rural Affairs,
Department for Environment, Food and Rural Affairs.



Rt Hon Robert Jenrick,
Minister for Immigration, Home Office



William Quince MP
Minister for Health and Secondary Care,
Department for Health and Social Care



Mairi Gougeon MSP,
Cabinet Secretary for Rural Affairs, Land Reform and
Islands, Scottish Government



Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi/Minister for Economy
Llywodraeth Cymru/Welsh Government



Victoria Atkins MP,
Financial Secretary to the Treasury,
His Majesty's Treasury

Crynodeb Gweithredol

Cefndir a chyd-destun y ddogfen hon

Ym mis Ebrill 2022, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chyflwyno'r set derfynol o reolaethau arfaethedig ar fewnforion o'r UE. Fel y cyhoeddwyd gennym ar y pryd, rydym yn hytrach wedi gweithio gyda diwydiant i ddatblygu model newydd ar gyfer mewnforion i Brydain. Mae'r 'Model Gweithredu Targed Ffiniau' newydd hwn yn berthnasol i fewnforion o bob gwlad i Brydain, a bydd am y tro cyntaf yn gweithredu'r dull newydd ar gyfer yr holl bartneriaid masnachu, gan gynnwys yr UE. Mae'n ceisio cydbwysu'r angen am reolaethau ffiniau effeithiol â'r angen i gefnogi busnesau â phrosesau mewnforio sydd mor syml â phosibl. Mae'n gwneud hyn drwy fanteisio ar ein rhyddid newydd i bennu ein polisi ffiniau ein hunain ac integreiddio'r trawsnewidiadau technolegol a nodir yn [Strategaeth Ffiniau'r DU yn 2025](#). Er bod y model newydd yn canolbwyntio ar wella sut mae nwyddau'n cael eu mewnforio, saif ochr yn ochr â'n hymdrechion ehangach, ac yn eu cefnogi, i gynyddu allforion y DU a chyrraedd £1 Triliwn o allforion yn flynyddol erbyn diwedd y degawd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r model newydd sydd wedi'i ddatblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cydweithio ledled Llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban, ac ymgysylltu â swyddogion o'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Y bwriad yw egluro i fewnforwyr, y diwydiant ffiniau a rhanddeiliaid ehangach y prosesau y bydd angen iddynt fynd drwyddynt er mwyn mewnforio nwyddau unwaith y bydd y Model Gweithredu Targed Ffiniau ar waith. Ein hamcan wrth gyhoeddi'r ddogfen ddrafft hon yw caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y cynigion cyn i ni gyhoeddi fersiwn derfynol ym mis Mai neu ddechrau Mehefin.

Model newydd ar gyfer mewnforion

Mae'r Model Gweithredu Targed Ffiniau yn cynnig dull newydd o reoli diogelwch (sy'n berthnasol i'r holl fewnforion), a rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol (sy'n berthnasol i fewnforion anifeiliaid byw, cynhyrchion eginol, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion) ar y ffin. Mae'n nodi sut y darparir rheolaethau drwy symleiddio, digideiddio a Ffenestr Masnach Sengl newydd y DU.

Ar gyfer rheolaethau Diogelwch, ein dull gweithredu fu lleihau beichiau masnachwyr a chynnal diogelwch ar y ffin wrth barhau i gyd-fynd â safonau rhyngwladol. O dan ein model newydd, byddwn:

- **yn lleihau'r** gofynion data Diogelwch i lawr o'r set ddata 37 maes presennol i 24 maes gorfodol. Bydd y 13 maes arall yn ddewisol;
- **yn ei gwneud hi'n haws** cyflwyno data Diogelwch drwy ffenestr Masnach Sengl y DU;
- **yn gwella'r** defnydd o ddata gan Lywodraeth y DU i ddileu dyblygu gwaith (er enghraifft drwy ganiatáu defnyddio Dogfennau Cysylltiedig â Diogelwch Tramwy yn lle datganiadau Diogelwch a Thramwy ar wahân).

- **yn dileu** gofynion Diogelwch ar gyfer y categorïau symud canlynol: nwyddau porthladd rhydd penodol sy'n mynd allan, tramwy allan a physgod o ddyfroedd y DU wedi'u glanio mewn porthladdoedd nad ydynt yn y DU.

Ar gyfer rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol, bydd gan ein dull gweithredu o dan y model newydd y tair elfen allweddol ganlynol:

- **Dull newydd sy'n seiliedig ar risg byd-eang:** caiff anifeiliaid byw, cynhyrchion eginol, cynhyrchion o darddiad anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion eu categorioeddio'n risg uchel, canolig neu isel, gyda rheolaethau wedi'u pwysu'n briodol o ran y risgiau a grëir gan y nwyddau a'r wlad darddiad;
- **Tystysgrifau iechyd symlach a digidedig:** byddwn yn digido tystysgrifau ffytolanweithiol o 2023 ymlaen yn unol â'r nifer sy'n manteisio arno pharodrwydd ein partneriaid masnach. Byddwn yn gweithredu tystysgrifau iechyd allforio symlach a digidedig ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid gan arwain at ddefnydd mwy awtomataidd o ddata;
- **Defnyddio ymddiriedaeth:** byddwn yn treialu cynlluniau gyda diwydiant lle gall mewnforyr awdurdodedig planhigion, cynhyrchion planhigion a rhai cynhyrchion anifeiliaid fod yn gymwys i gael rheolaethau symlach. I fod yn gymwys bydd angen iddynt ddarparu'r sicrwydd a'r dystiolaeth fanwl (fel y nodir isod) eu bod yn bodloni'r gofynion a'r safonau rheoliadol.

Bydd datblygu Ffenestr Masnach Sengl y DU yn sail i'r dull newydd hwn o reoli. Bydd hyn yn darparu un porth digidol i fewnforyr ac allforyr ddarparu'r data sydd eu hangen i fasnachu a gwneud cais am drwyddedau ac awdurdodiadau ar gyfer cynlluniau masnachwyr dibynadwy.

Rydym yn cydnabod cymhlethdod y gadwyn cyflenwi bwyd a byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad yw cyflwyno rheolaethau newydd i liniaru risgiau bioddiogelwch yn effeithio'n negyddol ar wytnwch na dibynadwyedd cadwyn gyflenwi bwyd y DU sy'n bwysig i ddefnyddwyr. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen i fusnesau a'u cadwyni cyflenwi addasu eu modelau busnes mewn ymateb i gyflwyno'r rheolaethau newydd hyn, ac yn enwedig y drefn newydd yn y maes Glanweithiol a Ffytolanweithiol. Byddwn yn eu cefnogi lle bynnag y bo modd i wneud hynny. Effeithir fwyaf ar fusnesau sy'n defnyddio modelau gwahanol o grwpio fwyaf ac rydym wedi nodi dulliau penodol o'u cefnogi.

Amserlen i'w gweithredu

Rydym yn cynnig cyflwyno'r model newydd yn raddol a hynny ar sail sawl ffactor: yr angen am reoli bioddiogelwch yn effeithiol, iechyd y cyhoedd, diogelwch bwyd a risgiau diogelwch; yr angen i roi digon o amser i fusnesau baratoi; yr angen i sicrhau bod gan gadwyni cyflenwi amser i addasu ac nad oes amharu arnynt; a'r cyflymder y gallwn weithio gyda rhanddeiliaid i adeiladu'r systemau a'r seilwaith sydd eu hangen o dan y model newydd, gan gynnwys cyflwyno Ffenestr Masnach Sengl y DU. Byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i ddeddfwriaeth i

gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Model Gweithredu Targed pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

Rydym yn cynnig gweithredu'r model drwy dair prif garreg filltir¹:

- 31 Hydref 2023 - Cyflwyno ardystiad iechyd ar fewnforio cynhyrchion anifeiliaid risg canolig, planhigion, cynhyrchion planhigion a bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid o'r UE.
- 31 Ionawr 2024 - Cyflwyno dulliau adnabod dogfennol ac ar sail risg a gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion anifeiliaid risg canolig, planhigion, cynnyrch planhigion a bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid nad yw'n tarddu o anifeiliaid o'r UE. Ar yr adeg hon, bydd mewnforyn nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol o weddill y byd yn dechrau elwa o'r model newydd sy'n seiliedig ar risg. Bydd archwiliadau presennol o blanhigion/cynhyrchion planhigion risg uchel o'r UE yn symud o gyrchfan i BCP.
- 31 Hydref 2024 - Bydd datganiadau diogelwch ar gyfer mewnforyn yr UE yn dod i rym o 31 Hydref 2024 ymlaen. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyflwyno set ddata lai ar gyfer mewnforyn ac yn defnyddio Ffenestr Fasnach Sengl y DU a fydd yn dileu dyblygu gwaith lle bo modd ar draws gwahanol setiau data cyn-gyrraedd – megis Diogelwch, Glanweithiol a Ffytolanweithiol, a datganiadau tollau cyn eu cyflwyno.

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth mewn fersiwn derfynol o'r Model Gweithredu Targed ac yn cyhoeddi Model Gweithredu Ffiniau manwl i ddarparu'r manylion angenrheidiol ar gyfer gofynion aliniad system. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant wrth i ni ddiffinio gofynion ar gyfer Ffenestr Masnach Sengl y DU.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio adborth ar y model Gweithredu Targed Ffiniau newydd a gallu rhanddeiliaid i weithredu'r amserlen uchod. Er ein bod am gasglu ac ymateb i adborth rhanddeiliaid, credwn fod yr amserlen yn gydbwysedd synhwyrol rhwng yr amser sydd ei angen i baratoi a'r angen i weithredu'r rheolaethau pwysig hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ein bwriad cadarn yw bwrw ymlaen â'r garreg filltir gyntaf ar 31 Hydref 2023, cyflwyno ardystiad iechyd ar gynhyrchion anifeiliaid risg canolig, megis cig, llaeth, pysgod a bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad ydynt yn anifeiliaid a fewnforiwyd o'r UE, a thystysgrifau ffytolanweithiol ar gyfer nwyddau ffytolanweithiol a fewnforiwyd o'r UE. Dylai busnesau weithio gyda'u cadwyni cyflenwi i baratoi ar gyfer y newid hwn nawr.

¹ Fel y nodir yn [adran 3](#). Bydd y dyddiadau gweithredu ar gyfer yr ail a'r drydedd garreg filltir mewn porthladdoedd sy'n derbyn nwyddau Gwyddelig yn uniongyrchol i lwerddon ar arfordir y gorllewin yn cael eu cadarnhau yn fersiwn terfynol y model Gweithredu Targed Ffiniau.

Sut mae hyn yn berthnasol i nwyddau Gwyddelig a nwyddau cymwys yng Ngogledd Iwerddon sy'n cyrraedd o Iwerddon

Ar gyfer nwyddau sy'n symud i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr, nodir trefniadau o dan y Fframwaith Windsor y cytunwyd arno'n ddiweddar. Mae Fframwaith Windsor yn darparu system newydd o lonydd gwyrdd a choch ym mhorthladdoedd Gogledd Iwerddon ar gyfer symudiadau o Brydain Fawr, er mwyn diogelu marchnad fewnol y DU, wrth roi sicrwydd hefyd ar nwyddau ar eu ffordd i'r Undeb Ewropeaidd. Ar yr un pryd, bydd busnesau a dinasyddion Gogledd Iwerddon yn parhau i allu prynu nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd heb unrhyw rwystrau newydd. Ni fydd unrhyw un o'r gwiriadau neu'r rheolaethau ychwanegol a nodir yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau hwn yn berthnasol i fewnforion i Ogledd Iwerddon o'r UE, gan ddarparu mynediad llawn i fasnachwyr Gogledd Iwerddon i farchnad yr UE.

Bydd ymgysylltu ar wahân â busnesau, ac arweiniad ar gyfer busnesau, ar y trefniadau newydd o dan Fframwaith Windsor, ac felly nid yw'r rhain wedi eu cynnwys mewn manylder pellach yn y ddogfen hon. Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, bydd trefniadau terfynol ar gyfer symud nwyddau o Ogledd Iwerddon ac Iwerddon yn cael eu cadarnhau yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau terfynol y byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Yn unol â chyflwyno rheolaethau ffiniau ar fewnforion yr UE a nodir o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau, bydd busnesau o Iwerddon yn wynebu gwiriadau a rheolaethau newydd wrth symud nwyddau Gwyddelig (h.y. unrhyw nwyddau nad ydynt yn nwyddau Cymwys yng Ngogledd Iwerddon) o borthladdoedd Iwerddon (e.e. Porthladd Dilyn a Rosslare Europort) yn uniongyrchol i Brydain Fawr (e.e. porthladd Lerpwl a phorthladd Caergybi). Yn ogystal â gweithredu rheolaethau bioggiogelwch a diogelwch newydd a nodir yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau hwn ar nwyddau Gwyddelig sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i Brydain Fawr, byddwn hefyd yn dod â rheolaethau tollau llawn ar gyfer y symudiadau hyn, gan newid y trefniadau presennol sy'n berthnasol pan fydd y nwyddau hyn yn cyrraedd porthladdoedd Prydain Fawr sy'n derbyn traffig o borthladdoedd Iwerddon.

Yn ogystal â Fframwaith Windsor, byddwn ni'n sicrhau y bydd busnesau Gogledd Iwerddon yn parhau i gael mynediad dilyffethair wrth symud nwyddau i'w marchnad bwysicaf ym Mhrydain Fawr yn y DU i'w marchnad bwysicaf ym Mhrydain Fawr. Bydd y trefniadau hyn wedi'u hymgorffori a'u cryfhau ymhellach mewn deddfwriaeth ddomestig, gan osgoi beichiau ar gyfer nwyddau o Ogledd Iwerddon ar lwybrau uniongyrchol Gogledd Iwerddon-Prydain Fawr a llwybrau anuniongyrchol Gogledd Iwerddon-Iwerddon-Prydain Fawr.

Bydd y dull hwn yn cadarnhau mantais gystadleuol sylweddol i fusnesau Gogledd Iwerddon ar ynys Iwerddon, gan adlewyrchu lle annatod Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.

Byddwn yn cyflwyno'n raddol reolaethau ar nwyddau Gwyddelig sy'n symud o borthladdoedd Iwerddon i Brydain o fis Hydref 2023 ymlaen a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, a Llywodraethau Cymru a'r Alban, i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r rhwymedigaethau cyfreithiol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU. Ceir rhagor o fanylion yn adran 3 o'r ddogfen hon.

Sut y byddwn yn casglu adborth rhanddeiliaid

Datblygwyd y Model Gweithredu Targed Ffiniau drafft dros 2022 mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid drwy ystod o weithdai a thrafodaethau.

Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau ar y cynigion cyn iddynt gael eu cwblhau o ystyried pa mor hanfodol yw'r sector preifat ac awdurdodau'r ffiniau wrth weithredu unrhyw fodel newydd. Rydym am brofi'r fersiwn ddrafft hon o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau gyda rhanddeiliaid. Bydd y cyfnod ymgysylltu yn para am 6 wythnos tan 19 Mai.

Cwestiynau allweddol yr ydym am eu profi gyda rhanddeiliaid

Mae pedwar cwestiwn allweddol yr ydym am eu cyflwyno i rhanddeiliaid ynglŷn â'r Model Gweithredu Targed Ffiniau. O fewn y ddogfen rydym wedi tynnu sylw at bwyntiau penodol lle byddem yn croesawu ystyriaeth rhanddeiliaid wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am y model newydd ar gyfer rheolaethau Diogelwch, eu heffaith ar fusnesau a'r dull o'u gweithredu?

Y pwyntiau penodol lle byddem yn croesawu ystyriaeth rhanddeiliaid yw:

- O ystyried yr angen i sicrhau'r ffin, a oes unrhyw fesurau ychwanegol yr hoffech i ni eu hystyried, er mwyn lleihau baich rheolaethau Diogelwch o fewn cyd-destun fframwaith Sefydliad Tollau'r Byd (WCO). - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- A oes unrhyw gyfleoedd ychwanegol i ddarparu effeithlonrwydd data drwy'r Ffenestr Fasnach Sengl. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- A yw'r ddogfen hon yn rhoi digon o fanylion i ddechrau gwneud paratodau ar gyfer y model Diogelwch newydd; a fyddai angen rhagor o wybodaeth arnoch i baratoi ar gyfer cyflwyno rheolaethau Diogelwch. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- Gellir diwygio Datganiadau Mynediad Diogelwch (ENS) hyd at adeg cyrraedd. Ydych chi'n ymwybodol o'r broses hon? - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am y model newydd ar gyfer rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol, eu heffaith ar fioggiogelwch, iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, busnesau, yn ogystal â'r dull o'i weithredu?

Y pwyntiau penodol lle byddem yn croesawu ystyriaeth rhanddeiliaid yw:

- Effaith y cyfundrefnau newyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol newydd ar eich cadwyn gyflenwi pa un ai a ydych yn fewnforwr neu'n allforiwr. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- Effaith y drefn newydd ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol ar eich model busnes penodol, yn enwedig mewn

perthynas â'r defnydd o grwpio ar gyfer mewnfario. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

- Sut y gallai'r cynlluniau peilot ar gyfer Cynlluniau Masnachwyr Dibynadwy ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol weithredu'n effeithiol. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

Cwestiwn 3: Pa heriau sy'n bodoli i'r sector preifat o ran bodloni'r amserlen arfaethedig ar gyfer darparu'r model newydd, a sut y gellir cefnogi modelau busnes penodol ar gyfer mewnfario ymhellach er mwyn paratoi?

Y pwyntiau penodol lle byddem yn croesawu ystyriaeth rhanddeiliaid yw:

- A all fod unrhyw anawsterau gweithredol wrth weithredu rheolaethau mewnfario Glanweithiol a Ffytolanweithiol gan ddefnyddio'r prosesau a'r systemau busnes presennol. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- A fyddai unrhyw newidiadau i systemau yn cael effaith ar gadwyni cyflenwi sensitif. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

Cwestiwn 4: Pa fanylion pellach sydd eu hangen er mwyn i fusnesau baratoi ar gyfer a gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd?

Y pwyntiau penodol lle byddem yn croesawu ystyriaeth rhanddeiliaid yw:

- Byddem yn croesawu barn ar sut y gellid gwneud ein dull arfaethedig o weithredu dull trawslywodraethol o awdurdodi statws Masnachwr Dibynadwy mor syml â phosibl i fusnesau ei ddefnyddio. - Gweler [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

Sut i ymateb:

Adborth ysgrifenedig

Anogir rhanddeiliaid i roi eu hadborth ar y cynigion drwy'r [porth ar-lein](#), ond gellir cyflwyno ymatebion ysgrifenedig hefyd drwy e-bost at border.enquiries@cabinetoffice.gov.uk, neu eu hanfon drwy'r post i: Borders Group, Cabinet Office, 100 Parliament Street, London SW1A 2BQ.

Digwyddiadau rhanddeiliaid

Byddwn yn cynnal rhaglen o ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid o bob un o wledydd y DU ac â phartneriaid rhyngwladol. Bydd y rhain yn dod â rhanddeiliaid a thimau polisi o'r llywodraeth at ei gilydd i drafod a phrofi'r cynigion a nodir yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau. Bydd gweithdai penodol i'r sector a digwyddiadau ymgysylltu rhyngwladol, yn ogystal â grwpiau rhanddeiliaid ehangach a sesiynau pwrpasol. Gallwch gofrestru ar gyfer digwyddiad [yma](#).

Sut y defnyddir yr ymatebion?

Defnyddir y canfyddiadau gan randdeiliaid, drwy'r arolwg ar-lein a'r digwyddiadau ymgysylltu, i fireinio'r Model Gweithredu Targed Ffiniau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

Canllaw i'r Ddogfen hon

Dyluniwyd y ddogfen hon i helpu mewnforyr ac allforyr y DU a'u cadwyni cyflenwi, y diwydiant ffiniau a logisteg, porthladdoedd, a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys partneriaid masnachu'r DU i ddeall y Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd a gwelliannau cysylltiedig i ffin y DU a fydd yn digwydd cyn 2025.

[Adran 1: Model Gweithredu Targed Ffiniau ar gyfer mewnforyn](#)

Mae'r adran hon yn nodi egwyddorion y model newydd ar gyfer mewnforyn cyn ymdrin â'r newidiadau i'r cyfundrefnau rheoli Diogelwch a Glanweithdra a Ffytolanweithdra yn fanwl. Dylai mewnforyr, allforyr tramor, a'r diwydiant logisteg ddarllen yr adran hon i ddeall y camau y bydd angen iddynt eu cymryd i fewnforio eu nwyddau, a sut y bydd y nwyddau hynny'n cael eu trin.

[Adran 2: Diwydiant ffiniau a gofynion porthladdoedd](#)

Mae'r adran hon yn nodi beth bydd angen i'r diwydiant ffiniau a'r porthladdoedd ei wneud er mwyn gweithredu'r model. Dylai porthladdoedd a'r diwydiant ffiniau ymgynghori â'r adran hon i ddeall pa rôl yr ydym yn rhagweld y byddant yn ei chwarae yn y model a sut rydym am weithio gyda nhw i ddylunio'r cynlluniau cyflawni manwl a fydd yn sail i'r Model Gweithredu Targed Ffiniau.

[Adran 3: Amserlen gweithredu ar gyfer y Model Gweithredu Targed Ffiniau](#)

Mae'r adran hon yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r model yn raddol a'r cerrig milltir y bydd angen i randdeiliaid baratoi ar eu cyfer. Dylai mewnforyr, allforyr tramor, y diwydiant logisteg a'r porthladdoedd ddarllen yr adran hon i wybod pryd y bydd gofynion newydd ar waith. Mae'r adran hon hefyd yn nodi sut mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau yn sefyll o fewn y portffolio mwy o drawsnewidiadau ffiniau y byddwn yn eu cyflawni dros y blynyddoedd nesaf.

[Adran 4: Gwella'r ffin i allforyr](#)

Mae'r adran hon yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth y DU i gefnogi allforyr ac yn amlinellu gwelliannau penodol sydd gennym neu y byddwn yn eu gweithredu yn y blynyddoedd nesaf ochr yn ochr â gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau.

[Adran 5: Newidiadau yn y model teithwyr](#)

Mae'r adran hon yn nodi'r trawsnewidiadau y mae'r Swyddfa Gartref a Llu'r Ffiniau yn eu gweithredu i foderneiddio ac awtomeiddio symudiad teithwyr trwy borthladdoedd y DU. Dylai porthladdoedd a'r diwydiant ar y ffin ddarllen yr adran hon i ddeall sut y bydd newidiadau mewn symudiadau teithwyr yn digwydd ochr yn ochr â newidiadau yn y modd y mae nwyddau'n symud dros y ffin.

Adran 1: Model Gweithredu Targed Ffiniau ar gyfer mewnforyn

1.1 Trosolwg o'r model newydd

Crynodeb o'r model newydd ar gyfer mewnforyn


Ym mis Ebrill 2022, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chyflwyno gofynion Diogelwch pellach na rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol sy'n berthnasol i gynhyrchion anifeiliaid, planhigion, cynhyrchion planhigion a bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid a bwydydd o darddiad nad yw o anifeiliaid ar fewnforyn i Brydain o'r UE a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer Gorffennaf 2022 ymlaen.

Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig, mewn cydweithrediad â masnachwyr a'r diwydiant ar y ffin, wedi datblygu Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd.

Mae'r Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd yn sylweddol wahanol i'r model yr oeddem yn wreiddiol yn mynd i'w gyflwyno ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n dod â gwelliant polisi a phrosesau, technoleg a gwell defnydd o ddata at ei gilydd i weithredu model newydd ar gyfer mewnforyn nwyddau i Brydain. Bydd hyn yn cyflwyno'r trefniadau gorau posibl i'r rhai sy'n mewnforyn o'r UE, ac yn gwella profiad y rhai sy'n mewnforyn o wledydd y tu allan i'r UE. Bydd yn gwneud hyn drwy leihau cymhlethdod diogelwch, bioddiogelwch a rheolaethau ffiniau iechyd cyhoeddus y DU; lleihau'r gwaith papur a'r ardystiad sydd ei angen, ac; alinio gofynion ac amllder gwiriadau ffisegol i'r risg a gyflwynir. Lle mae angen gweithredu gan fewnforwyr bydd digideiddio prosesau cyflwyno data yn lleihau'r angen i ailgyflwyno data.

Nodir isod drosolwg o'r broses y bydd angen i fusnes nodweddiadol sy'n mewnforyn nwyddau i Brydain fynd drwyddi o dan y model newydd. Mae hyn yn crynhoi'r data allweddol y mae'n rhaid iddynt eu ddarparu, pan fydd rhaid iddynt ddarparu dogfennau ategol a phryd y gallai fod angen archwiliad ffisegol o'u nwyddau.

Summary of how the Border Target Operating Model will improve the import process



Ffigur 1: Crynodeb o sut y bydd y Model Gweithredu Targed Ffiniau yn gwella'r broses fewnforio

Manteision y model i'r DU

Rydym yn credu mai'r Model Gweithredu Targed Ffiniau yw un o'r modelau ffiniau mwyaf deallus sy'n seiliedig ar ddata yn y byd. O'i gymharu â'r model mewnfario gwreiddiol a fyddai wedi'i gyflwyno yn 2022, credwn y bydd y model newydd hwn yn lleihau costau i fusnesau o ryw £400m y flwyddyn drwy leihau cymhlethdod a maint y gwaith papur sy'n gysylltiedig â mewnfario.

Y Model Diogelwch yw un o'r cyfleoedd gorau i wella diogelwch ar y ffin ar ôl gadael yr UE i ddiogelu'r wlad. Bydd y data ychwanegol cyn cyrraedd ar gyfer mewnfaron yr UE yn golygu asesu risg mwy deallus o gargo, gan ganiatáu i ni gael y bobl gywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir i atal nwyddau anghyfreithlon rhag cyrraedd strydoedd y DU.

Wrth ddatblygu'r model Diogelwch newydd rydym wedi adolygu'r gofynion Diogelwch, gan leihau'r data a osodwyd i eitemau sy'n hollbwysig i ddiogelwch wrth gadw hyblygrwydd i'r rhai sydd eisoes yn gwneud datganiadau.

Mae rheolaethau ffiniau yn un rhan bwysig o system fewnfario gadarn i sicrhau bod ein bwyd yn ddiogel a'n bod yn cael ein diogelu rhag clefydau anifeiliaid a phlanhigion. Bydd y model newydd ar gyfer rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol yn darparu manteision i fusnesau, wrth ddarparu rheolaethau cadarn sydd eu hangen i ddiogelu bioddiogelwch y DU a sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at gynhyrchion bwyd o ansawdd uchel a diogel.

Mae Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU, a gyhoeddwyd yn 2018 ac a fydd yn cael ei diweddarau'n fuan, yn nodi'r heriau sy'n codi wrth gynnal ein diogelwch biolegol a sut mae'r bygythiadau hynny'n cael eu rheoli. Roedd yn cydnabod bod un o'r risgiau mwyaf difrifol y mae cymdeithasau eu hwynebu heddiw yn dod o achosion o glefyd. Mae achosion o'r fath yn bygwth bywydau a bywoliaethau ac yn cynhyrchu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol. Nid yw achosion o glefydau mawr mewn anifeiliaid neu blanhigion yn parchu ffiniau rhyngwladol ac mae'r bygythiad y maent yn ei greu wedi tyfu wrth i'r byd fynd yn fwyfwy rhyng-gysylltiedig. Yn wlad sy'n masnachu'n fyd-eang, mae'r DU yn agored i'r risgiau hyn, ac mae rheolaethau ffiniau yn arf allweddol i'w rheoli.

Mae rheolaethau ffiniau glanweithiol a ffytolanweithiol yn seiliedig ar ddata am nwyddau wedi'u rheoleiddio, sy'n galluogi targedu gwiriadau mwy dwys, sicrwydd ardystiad swyddogol, ac archwiliad ffisegol i roi sicrwydd bod nwyddau wedi'u hardystio'n gywir. Tair elfen hanfodol o systemau rheoli iechyd mewnfario yw:

- Rhaghysbysu, sy'n cefnogi gweithredu ar bwytiau mynediad, gan ganiatáu i swyddogion dargedu eu gweithgareddau mewn llongau sy'n peri'r risg fwyaf. Mae'r manylion yn caniatáu olrhain, gan alluogi awdurdodau anifeiliaid, planhigion ac iechyd cyhoeddus i nodi ac ymateb i achosion neu fygythiad sy'n dod i'r amlwg.
- Ardystiad iechyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion awdurdodedig mewn gwledydd allforio ardystio bod y nwyddau wedi'u cynhyrchu i'r

safonau diogel ac sy'n ofynnol gan y wlad sy'n mewnfario yn ogystal â phroses i fonitro'r rhai trwy wiriadau dogfennol.

- Mae archwiliad ffisegol, fel arfer mewn man rheoli ffin, yn caniatáu i swyddogion iechyd wirio bod nwyddau yn cyd-fynd â'r ardystiad iechyd, i nodi unrhyw dueddiadau pryderus o ran diffyg cydymffurfio ac i samplu'r nwyddau ar gyfer unrhyw blâu a chlefydau.

Rydym yn mewnfario yn unig o wledydd y gwyddom eisoes yn eu bod yn rheoli iechyd eu hanifeiliaid a'u hanifeiliaid yn briodol drwy restru gwledydd. Archwilir y gwledydd sy'n allforio a'u sefydliadau cynhyrchu gan eu hawdurdodau cymwys ac mae angen iddynt fodloni gofynion penodol i'w hallforio i'r DU. Ar hyn o bryd, mae nwyddau o'r UE yn mynd i mewn i'r DU heb ardystio na gwiriadau, ar wahân i'r rhai sydd eu hangen ar gyfer yr anifeiliaid byw risg uchaf, cynhyrchion eginol a phlanhigion. Mae'r Model Gweithredu Targed Ffiniau yn cyflwyno rheolaethau cymesur a fydd yn amddiffyn y sector bwyd-amaeth ac iechyd y cyhoedd. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn osgoi clefydau a allai ddifetha diwydiannau'r DU a'n gallu i allforio.

Mae'r risgiau o reolaethau annigonol yn sylweddol ac yn ddeinamig. Mae peryglon clefydau sylweddol hefyd yn gysylltiedig ag ystod eang o nwyddau wedi'u mewnfario: yn sgil achosion diweddar o Salmonela ledled y DU a achoswyd gan gynhyrchion ieir sy'n tarddu o'r UE, cadarnhawyd dros 1000 o achosion o salwch (gyda chymaint â 4000 o achosion ychwanegol o bosibl na chafodd eu cadarnhau/eu hadrodd) ac sy'n costio amcangyfrif o £7.7m. Mae mesurau bioddiogelwch hefyd yn lleihau'r risg o fewnfario clefydau, gan gynnwys clefydau sŵnotig, sy'n gyfrifol am ryw 75% o glefydau heintus newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg mewn pobl (gan gynnwys y rhai sydd â photensial pandemig).

Astudiaeth Achos: Twymyn Moch Affricanaidd a Rheolaethau Ffiniau

Byddai achosion o Dwymyn Moch Affricanaidd yn fygythiad sylfaenol i hyfywedd ein diwydiant moch.

Mae Twymyn Moch Affrica yn gyffredin mewn nifer o wledydd ar Gyfandir Ewrop, y tu mewn a'r tu allan i'r UE. Roedd archwiliad rheolaidd diweddar o siopau manwerthu gan awdurdodau lleol yn y DU wedi canfod cynhyrchion cig wedi'u rhewi, amrwd a heb eu coginio'n glir yn rhai addas yn unig i'w gwerthu yng ngwlad yr UE o ble roeddent yn tarddu. Canfu ymchwiliadau pellach fod y cynhyrchion hyn wedi'u prynu gan ddau fewnforwr, sy'n gysylltiedig â dros 280 o siopau manwerthu yn y DU. Cafodd y cynhyrchion hyn eu hallforio'n fasnachol, a'u hysbysu'n briodol ymlaen llaw ar system mewnfario y DU. Er na wnaeth y cynhyrchion brofi'n bositif am Dwymyn Moch Affricanaidd y tro hwn mae'r union ffaith fod y cynhyrchion hyn wedi cyrraedd y DU yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i ddiwydiant moch y DU.

Ni fyddai'r nwyddau hyn wedi cyrraedd y DU pe bai rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol wedi bod ar waith oherwydd na fyddent wedi cael eu hardystio i'w hallforio gan filfeddyg yn y wlad o ble roeddent yn tarddu.

Wrth ddatblygu'r model newydd, ein nod oedd dylunio ffin fodern gyda system symlach ond effeithiol o reolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol. Ffin yw hon sy'n pwysleisio'r cydbwysedd rhwng cynnal, neu wella, bioddiogelwch, iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd ac sy'n gosod baich rheoleiddio cymesur. Rydym yn cydnabod bod gan rai nwyddau yn eu hanfod risg is, er enghraifft nwyddau wedi'u prosesu'n uchel o systemau cynhyrchu yr ydym yn ymddiried ynddynt, ac ar gyfer y rhain rydym yn cydnabod y gall gwiriadau rhaghysbysu a gwybodaeth briodol ddarparu digon o amddiffyniad a chydbwysu'r beichiau cymharol. Mae hyder partneriaid masnach yn ein safonau iechyd anifeiliaid a phlanhigion, gan gynnwys rheolaethau swyddogol ar y ffin, yn hanfodol i'n gallu i allforio ac i daro bargeinion masnach newydd.

Dull trawslywodraethol o awdurdodi Masnachwyr Dibynadwy

Mae Strategaeth Ffiniau'r DU 2025 yn nodi'r uchelgais i greu dull trawslywodraethol o awdurdodi busnesau ar gyfer statws Masnachwr Dibynadwy (lle mae masnachwr yn mynd trwy broses sicrwydd o flaen llaw er mwyn cael awdurdodiad i ddefnyddio dulliau hwyluso nad ydynt ar gael i fasnachwyr yn ddiodyn) sy'n gweld ehangu'r dulliau hyn ar draws gwahanol gyfundrefnau cydymffurfio. Mae'r Model Gweithredu Targed Ffiniau yn ceisio cyflawni'r uchelgais hon, ac ymgorffori rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol yn ein dull o awdurdodi Masnachwyr Dibynadwy.

Ar hyn o bryd, mae cynnig 'Masnachwr Dibynadwy' Llywodraeth y DU yn cynnwys dros 80 o gynlluniau ar gyfer tollau ac ardollau a weinyddir gan CThEF, megis y Gweithredwyr Economaidd Awdurdodedig (AEO) a Llwyth Awdurdodedig (ACC) ar gyfer defnyddwyr tramwy a chartrefi tollau. Mae budd-daliadau'n amrywio o wiriadau llai ar y ffin i'r gallu i ohirio tollau ac ardollau taliadau TAW. Ar gyfer awdurdodiadau tollau, heb yr awdurdodiadau a'r cymeradwyaethau gofynnol, ni all busnesau gynhyrchu cynhyrchion tollau megis cwrw, tybaco neu danwydd ffordd.

Nid oes gan y cynlluniau awdurdodi tollau presennol ddulliau darllen systemig ar draws i'w gilydd a rhaid i fasnachwyr ail-gydio mewn gwybodaeth ar gyfer pob awdurdodiad. Yn ogystal, nid oes llwyfan canolog lle gall busnes reoli neu wneud cais am gynlluniau y maent yn gymwys ar eu cyfer. Yn ogystal, mae cynnig presennol Masnachwr Dibynadwy y Llywodraeth yn canolbwyntio ar awdurdodiadau tollau, gydag ychydig o ddulliau hwyluso a gynigir ar gyfer cyfundrefnau rheoli eraill, megis rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol.

Trwy'r model Gweithredu Targed Ffiniau byddwn yn creu dull cydgysylltiedig â'n cynnig Masnachwr Dibynadwy.


- Bydd CThEF yn symleiddio ei gynlluniau presennol yn radical ar gyfer masnachwyr dibynadwy drwy'r prosiect Moderneiddio Awdurdodiadau. Bydd hyn yn symleiddio'r gyfres bresennol o awdurdodiadau tollau a digideiddio'r broses ymgeisio/rheoli presennol ar bapur ar gyfer awdurdodiadau tollau. Bydd awdurdodiadau yn fwy gweladwy i fasnachwyr gan ei gwneud yn haws iddynt nodi a chael mynediad at yr awdurdodiadau hynny sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion.
- Bydd Ffenestr Masnach Sengl y DU yn creu un porth ar gyfer ceisiadau a rheoli statws Masnachwr Dibynadwy. Bydd hyn yn arbed y baich gweinyddol i fasnachwyr o gasglu data sawl gwaith, a bydd y ceisiadau a'r canllawiau ar gyfer cynlluniau awdurdodi hefyd yn cael eu cynnal ar un llwyfan. Bydd gan fasnachwyr sy'n gwneud cais am awdurdodiadau daith symlach i gwsmeriaid lle na ofynnir am ddata ar sawl achlysur. Pan fydd gallu a maint masnach masnachwr yn tyfu fel eu bod am symud i ffwrdd o wasanaethau trydydd parti ac ymgymryd â phrosesau tollau yn uniongyrchol, byddant yn gallu cael mynediad at eu hawdurdodiadau a'u rheoli'n haws. Bydd y dull hwn yn ei gwneud yn fwy syml gwneud cais am gynlluniau Masnachwr Dibynadwy a bydd yn helpu cwmnïau llai i ddechrau mewnforio, gan eu hannog i wneud cais am hwyluso pellach wrth iddynt ddod yn fwy aeddfed. Caiff masnachwyr sydd ag awdurdodiadau presennol eu rhoi ar y llwyfan newydd a byddant yn gallu adolygu a diwygio yr holl awdurdodiadau sydd ganddynt mewn un man a defnyddio eu data i wneud cais am gynlluniau ychwanegol. Mae Ffenestr Masnach Sengl y DU wedi'i chynllunio fel y gellir ymgorffori nodweddion newydd yn y dyfodol. Yng nghyd-destun cynllun masnachwr dibynadwy, mae hyn yn golygu y gall y cynnig masnachwyr dibynadwy ehangu os yw hwyluso pellach yn cael eu datblygu ar gyfer masnachwyr.
- Fel y nodir yn fanwl y dull newydd o gynnal rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol isod, byddwn yn gweithio gyda diwydiant i dreialu awdurdodiadau Masnachwyr Dibynadwy newydd ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Fffytolanweithiol. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn archwilio a yw'n bosibl i fusnesau ddangos cydymffurfiaeth a darparu'r sicrwydd angenrheidiol i reoli bioddiogelwch, iechyd a lles anifeiliaid, a risgiau diogelwch bwyd.
- Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda diwydiant, trwy ein cynlluniau peilot Ecosystem Ymddiriedaeth, i brofi'r model ffiniau mwyaf datblygedig y gallwn ei ddychmygu, lle mae technoleg, data a pholisi yn dod at ei gilydd i arwain at symudiad bron yn ddi-ffrithiant dros y ffin i Fasnachwyr Dibynadwy. Mae'r cynlluniau peilot yn treialu'r holl dechnoleg a'r canfyddiadau data sy'n sail i'r drefn ac a all roi sicrwydd i'r llywodraeth am symudiad nwyddau, gan ganiatáu masnach a buddion mwy hwylusedig i ddiwydiant. Er na chaiff y model ei werthuso tan fis Mai 2023, rydym yn gobeithio y bydd yn dod yn rhan o Fodel Gweithredu Targed Ffiniau yn y dyfodol.

Mae'r map taith defnyddiwr isod yn dangos sut rydym yn credu y dylai'r system weithredu yn y pen draw, gan gynnwys mewnbwn ac allbwn gan y defnyddiwr, platfform Ffenestr Masnach Sengl y DU, a'r systemau adrannol sy'n sail iddi.

Pwyntiau i'w hystyried wrth fwydo'n ôl ar y drafft hwn o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau:

- Byddem yn croesawu barn ar sut y gellid gwneud ein dull arfaethedig o weithredu dull trawslywodraethol o awdurdodi statws Masnachwr Dibynadwy mor syml â phosibl i fusnesau ei ddefnyddio.

Proposed model for delivering a cross-government approach to trusted trader authorisations through the UK Single Trade Window



This journey map shows how the system will function, referencing the input and outputs from the user, STW platform, and underpinning departmental systems. In this example, a user first applies for an authorisation, then some time later, applies for a further authorisation.

Ffigur 2: Model arfaethedig ar gyfer darparu dull trawslywodraethol o awdurdodi masnachwyr dibynadwy drwy Ffenestr Masnach Sengl y DU

1.2 Y model Diogelwch newydd

Cefndir

Mae datganiadau Diogelwch yn cefnogi ein brwydr yn erbyn nwyddau anghyfreithlon megis cyffuriau ac arfau sy'n dod i mewn i'r DU o dramor. Mae gan y DU ofynion ar gyfer Datganiadau Diogelwch fel llofnodwr fframwaith SAFE Sefydliad Tollau'r Byd (WCO). Bu'r rhain yn berthnasol i fewnforion ac allforion o wledydd y tu allan i'r UE ers 2011. Ers hynny mae gofynion datganiad diogelwch allforion wedi dod yn ofyniad i bopeth sy'n symud o Brydain Fawr i'r UE ers 1 Hydref 2021.

O dan Fframwaith SAFE, daeth Datganiadau Diogelwch Sefydliad Tollau'r Byd hefyd yn ofynnol i fasnachu rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd cyfnod pontio'r DU wrth adael yr UE ac maent wedi'u cyflwyno gan yr UE ar nwyddau o Brydain Fawr. Cyflwynodd Llywodraeth y DU hepgoriad dros dro ar gyfer mewnforion yr UE i Brydain Fawr oherwydd pryderon am feichiau masnachwyr, diffyg parodrwydd masnachwyr, a tharfau posibl ar gyfer llwybrau masnach hollbwysig a chadwyni cyflenwi a waethygydd gan bandemig COVID-19.

Roedd hyn yn wir am nwyddau a oedd yn symud o Iwerddon i Brydain Fawr hefyd. Ymhellach at ymrwymiad Llywodraeth y DU i 'fynediad dilyffethair' ar gyfer nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Marchnad Fewnol y DU, ym mis Rhagfyr 2021 penderfynodd y Llywodraeth oedi cyn cyflwyno rheolaethau tollau a SPS ar fewnforio nwyddau o Iwerddon. Gwnaed hyn i sicrhau nad oedd masnachwyr yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn wynebu rhagor o ansicrwydd tra roedd y trefniadau Protocol eu hunain yn ansicr. Rydym bellach yn adolygu cymhwyso'r eithriad hwn ar gyfer nwyddau o ynys Iwerddon, mewn ffordd sy'n diogelu mynediad dilyffethair i Ogledd Iwerddon.

Mae datganiadau Diogelwch yn helpu i sicrhau bod ymyriadau ar y ffin yn seiliedig ar risg. Mae angen i lefel y data a gesglir fod yn gymesur ac yn ddigonol i gefnogi asesiadau sy'n seiliedig ar risg, gan gydbwysu anghenion diogelwch cenedlaethol â'r baich a roddir ar fasnachwyr i gasglu a chyflwyno'r data.

Mae'r gallu i gasglu data Diogelwch ar nwyddau sy'n tarddu o'r UE neu'n croesi'r UE yn gyfle i adael yr UE. Bydd gwella ein gwybodaeth am nwyddau sy'n cael eu mewnforio yn helpu Llu'r Ffiniau i gadw dinasyddion yn ddiogel rhag nwyddau niweidiol sy'n dod i mewn i'r wlad. Bydd hefyd yn lleihau'r tarfu ar y ffin drwy gefnogi dull gwybodus ar sail gwybodaeth o atal risg a hwyluso llif masnach gyfreithlon drwy leihau nifer yr ergydion 'positif ffug'.

Dod â'r hepgoriadau ar gyfer Datganiadau Diogelwch i ben ar gyfer mewnforion yr UE

Bydd dod â'r hepgoriad ar gyfer Datganiadau Diogelwch ynghylch mewnforion yr UE i ben yn gwella diogelwch y DU a'r data Diogelwch yn arf pwysig yn ein brwydr yn erbyn troseddau difrifol a threfnedig. **Bydd y llywodraeth felly yn gweithredu'r gofyniad i gyflwyno Data Diogelwch ar gyfer nwyddau sy'n**

cyrraedd Prydain Fawr o'r UE ym mis Hydref 2024. Ar ôl ei weithredu, rydym yn disgwyl gweld gwaith targedu mwy cywir, gan hwyluso llif masnach gyfreithlon. Mae'n ofynnol eisoes i'r rhai sydd eisoes yn allforio o Brydain i'r UE, neu fewnforio o Weddill y Byd, wneud Datganiadau Diogelwch nawr.

Datblygu'r drefn newydd

Rydym wedi adolygu'r model Diogelwch presennol gan ddechrau o'r egwyddorion sylfaenol. Wrth i ni symud tuag at ffin gynyddol ddigidol, mae casglu data yn hanfodol ar gyfer sicrhau ymyriadau sydd wedi'u targedu, gan alluogi llif nwyddau cyfreithlon. Rydym wedi datblygu model newydd sy'n canolbwyntio ar gasglu, dadansoddi a defnyddio data a ystyrir yn fwyaf hanfodol i ddiogelwch. Mae'r drefn newydd yn parhau i gynnal a chyflawni amcanion fframwaith SAFE Sefydliad Tollau'r Byd, wrth gydbwysu anghenion diogelwch cenedlaethol â'r baich a roddir ar fasnachwyr.

Yn rhan o adolygu'r model, buom yn archwilio sut y gallai technoleg symleiddio'r broses o gyflwyno Datganiadau Diogelwch i fasnachwyr wrth ddarparu set ddata gyfoethocach i Lywodraeth y DU. Drwy gynlluniau peilot [Ecosystem Ymddiriedaeth](#), rydym yn profi sut y gall canfyddiadau data a thechnoleg newydd leihau gwrthdrawiadau ar y ffin, ac adolygu sut y gallai data'r gadwyn gyflenwi ddisodli datganiadau Diogelwch traddodiadol. Er ei bod yn debygol y gall rhai systemau gweledd data cadwyni cyflenwi presennol gyflawni gofynion data Diogelwch Llywodraeth y DU heb yr angen am ddatganiad traddodiadol, mae canfyddiadau cynnar y cynlluniau peilot yn dangos na allwn ddangos bod hyn eto yn arwain at arbed costau uniongyrchol i fasnachwyr.

Mae cynlluniau peilot yr Ecosystem Ymddiriedaeth yn llywio dyluniad Ffenestr Fasnach Sengl y DU, yn enwedig ynglŷn â chynlluniau iddi brosesu data cadwyni cyflenwi i systemau'r llywodraeth er mwyn sicrhau data mwy cywir ac amserol ar gyfer cyflawni gweithrediadau risg y llywodraeth. Bydd hyn yn sicrhau'r ffin yn well ac yn darparu masnach â llai o wrthdaro. Cyhoeddir gwerthusiad llawn o'r cynlluniau peilot hyn ym mis Mai 2023 a fydd yn nodi'r hyn yr ydym wedi'i ddarganfod o ran sut mae data a gasglwyd yn y gadwyn gyflenwi yn ychwanegu gwerth at brosesau'r llywodraeth.

Manylu ar y newidiadau o fewn y model newydd ar gyfer Diogelwch

Ar gyfer Teithiau Defnyddwyr manwl ar gyfer cynhyrchion Diogelwch sy'n ymgorffori'r newidiadau o dan y model newydd, gweler Atodiad B.

Lleihau'r set ddata Diogelwch

Mae Llywodraeth y DU wedi asesu'r data sydd eu hangen at ddibenion Diogelwch, a bydd yn lleihau faint o ddata sydd eu hangen yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r meysydd data. Bydd y gostyngiad hwn yn berthnasol i'r holl fewnforion o unrhyw le yn y byd.

Rydym yn lleihau'r gofyniad i 24 maes gorfodol fel y nodir yn Atodiad A. Mae'r rhain yn rhai hanfodol o ran diogelwch ac yn caniatáu i'n system dargedu weithredu. Bydd y 13 maes data sy'n weddill yn ddewisol ond gellir eu cyflwyno'n wirfoddol gan unrhyw gludydd sy'n dewis gwneud hynny. Bydd hyn yn sicrhau nad oes angen i'r busnesau hynny sydd eisoes wedi'u sefydlu i fewnforio o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, neu'r rhai sy'n cyflwyno'n wirfoddol ar symudiadau'r UE, wneud unrhyw newidiadau i'w gweithdrefnau presennol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd cwblhau'r meysydd dewisol yn lleihau'r posibilrwydd y bydd nwyddau cyfreithlon yn cael eu dal ar ffin y DU oherwydd bydd yn gwella gallu Llu'r Ffiniau i asesu risg y nwyddau.

Asesir risg yr holl ddata Diogelwch ymlaen llaw ar gyfer symudiadau Prydain Fawr trwy system ddiogelwch bresennol Prydain Fawr, yn ogystal â gallu asesu risg a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr rwydweithio a dadansoddi setiau data traws-foddol trafodiadol a chyd-destunol amrywiol mewn amser go iawn. Cydnabod Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol sy'n gweithredu ar draws dulliau a nwyddau a gwella effeithiolrwydd targedu.

Gwelliannau i'r ffordd y darparir data Diogelwch

Ar hyn o bryd, mae angen i gludwyr sy'n mewnforio i Brydain Fawr gyflwyno datganiadau Diogelwch i S&SGB, system bwrpasol, sy'n gofyn am feddalwedd arbenigol i gysylltu â hi². Mae'r data a ddosbarthwyd i Lywodraeth y DU yn aml yn cael eu dyblygu trwy gydol taith y llwyth.

Bydd Ffenestr Fasnach Sengl y DU yn rhoi'r opsiwn i fasnachwyr a chyfryngwyr hunanwasanaethu'r prosesau ar gyfer trwyddedau, awdurdodiadau a datganiadau mewnforio a Diogelwch tollau sy'n ofynnol i fasnachu'n rhyngwladol. Bydd ymarferoldeb Ffenestr Fasnach Sengl y DU yn cael ei ddarparu'n ailadroddus trwy ddatganiadau strategol, a bydd yn darparu:

- ymarferoldeb hunanwasanaethu a fydd yn caniatáu i fewnforiwr yn y DU gwblhau datganiad Diogelwch ar-lein drwy Ffenestr Fasnach Sengl y DU am ddim. Bydd hyn yn integreiddio llwybrau hunanddatgan sydd eisoes yn bodoli, megis Mewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid, Systemau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (IPAFFS) Defra. Wrth i ragor o ymarferoldeb ddod ar gael, bydd Ffenestr Fasnach Sengl yn darparu:
- Y gallu i rannu a chydweithio ar ddatganiadau â phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi, lle mae defnyddwyr wedi cytuno i'r data gael eu rhannu a'u hailddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys y gallu i fasnachwr ddarparu i asiant neu gludydd yr wybodaeth sydd ganddynt (am y

² Mae'r gofyniad cyfreithiol i gyflwyno datganiad crynodeb mynediad yn nwylo [gweithredwr y dulliau gweithredol o deithio](#). Er enghraifft, y llong, yr awyren, y trên neu'r cerbyd ffordd ar y tir, neu lle mae'r nwyddau'n cael eu dwyn i mewn i'r diriogaeth dollau. Byddwn yn cyfeirio at y parti hwn fel y cludwr. Ar gyfer RoRo gallwn hefyd gyfeirio at y parti fel y cwmni cludo ar gyfer nwyddau 'y mae rhywun yn mynd â nhw' a'r gweithredwr fferi ar gyfer nwyddau 'heb neb yn mynd â nhw'.

nwyddau, cyfaint y nwyddau, ac ati) ac i'r wybodaeth hon gael ei defnyddio ar draws yr holl ddatganiadau sy'n ymwneud â'r llwyth

- Mesurau penodol i hysbysu defnyddwyr am rannu/aildefnyddio data, a mesurau diogelu rhag risg masnachol uwch (oherwydd bod gweithredwyr eraill yn gallu gweld rhywfaint o ddata wrth eu haildefnyddio)

Bydd datganiad strategol cyntaf Ffenestr Fasnach Sengl y DU, a gyflwynir o fis Tachwedd 2023 yn canolbwyntio ar ddarparu Rhyngwyneb Rhaglennu Cais (API) a rhyngwyneb defnyddwyr ar gyfer datganiadau Diogelwch (ENS) a datganiadau Mewnforio Tollau, gan ganiatáu i fasnachwyr gyflwyno eu datganiadau heb ofyn am feddalwedd arbenigol. Mae rhagor o fanylion am ymarferoldeb y Ffenestr Fasnach Sengl wedi'i nodi yn [Adran 3](#).

Pan gaiff ei gyflwyno gyntaf, bydd rhyngwyneb defnyddiwr Ffenestr Fasnach Sengl y DU hefyd yn dechrau darparu ymarferoldeb ychwanegol megis aildefnyddio data adnabod masnachwyr a data datganiadau pan fydd y rhain eisoes gan Lywodraeth y DU neu o fewn cyfrif Ffenestr Fasnach Sengl y masnachwr.

Yn y tymor hwy, bydd Ffenestr Fasnach Sengl y DU yn galluogi mewnforio'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer mewnforio ac allforio nwyddau i gael ei chyflwyno i asiantaethau ar y ffin drwy un system, gan symleiddio'r broses i fasnachwyr ymhellach. Bydd hyn yn golygu y gall masnachwyr gwblhau'r holl ofynion tollau ymlaen llaw, megis gofynion tollau cyn eu cyflwyno, gofynion Diogelwch a rhai glanweithiol a ffytoiechydol, heb fod angen defnyddio sawl system wahanol.

Gweler amserlin cyflwyno Ffenestr Fasnach Sengl y DU yn Adran 3 am ragor o wybodaeth.

Gwella'r defnydd o ddata gan lywodraeth y DU i ddileu dyblygu

Mae gweithdrefnau tramwy yn caniatáu atal prosesau tollau tra bod nwyddau'n symud drwy gyfundrefnau tollau lluosog. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n ofynnol i ddatganiadau Diogelwch gael eu gwneud ar gyfer symudiadau trwy wahanol diriogaethau tollau.

Bydd NCTS Cam 6 (sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd i'w weithredu ar draws pob un o wledydd Confensiwn Tramwy Cyffredin erbyn 1 Mehefin 2025) yn caniatáu ymarferoldeb i alluogi defnyddio Dogfennau Cysylltiedig â Diogelwch Tramwy yn lle datganiadau Diogelwch a Theithio ar wahân. Bydd hyn yn golygu, wrth symud nwyddau drwy wledydd eraill sydd wedi dewis mabwysiadu Dogfennau Cysylltiedig â Diogelwch Tramwy, y bydd angen i fasnachwyr sy'n defnyddio tramwy gyflwyno un Ddogfen Cysylltiedig Diogelwch Tramwy yn unig ar gyfer symudiad tramwy – yn

wahanol i'r sefyllfa ar hyn o bryd, lle mae angen cyflwyno datganiadau Diogelwch ar gyfer pob croesfan tiriogaeth tollau³.

Dileu gofynion Diogelwch ar gyfer symudiadau allforio risg isel

Erbyn diwedd 2023 byddwn yn cyflwyno hepgoriadau ychwanegol ar gyfer nifer o symudiadau risg isel penodol i ddechrau lleihau beichiau masnachwyr cyn gynted â phosibl. Bellach dan yr amgylchiadau canlynol, ni fydd angen datganiadau Diogelwch ar gyfer:

- Pysgod sy'n mynd allan
 - Ar hyn o bryd mae cyfraith y DU yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau Crynodeb Allforio (EXS), a elwir fel arall yn ddatganiadau ymadael Diogelwch ar gyfer pysgod sy'n cael eu dal ym moroedd tiriogaethol y DU a glanio y tu allan i'r DU, Nid yw'r symudiadau hyn yn fygythiad i ddiogelwch y DU ac felly nid yw'r gofyniad Diogelwch yn gymesur. Byddwn yn dileu'r gofyniad hwn i leihau'r baich ar fasnachwyr.
- Symudiadau teithio allan
 - Mewn achosion lle symudir nwyddau ar daith trwy Brydain Fawr, a bod datganiad mynediad Diogelwch (ENS) wedi'i wneud o fewn 14 diwrnod, byddwn yn hepgor y gofyniad am gyflwyno Datganiad Crynodeb Allforio (EXS). Gellir rheoli'r symudiadau hyn yn ddiogel gan ddefnyddio'r data ar y Datganiad Mynediad (ENS). Gwelwn y gofyniad hwn yn un sy'n dyblygu gwaith ac felly byddwn yn ei ddileu.
- Nwyddau porthladd rhydd sy'n mynd allan
 - Mewn achosion lle mae'r wybodaeth Diogelwch ymlaen llaw yn parhau ar gael ac yn ddilys, a bod y nwyddau wedi bod yn y porthladd rhydd am lai nac amser penodedig, byddwn yn hepgor y gofyniad am gyflwyno EXS.

Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn gwella'r profiad o allforio wedi eu nodi yn [Adran 4](#).

Gweithredwyr Parseli Cyflym

Bydd pob Gweithredydd Parseli Cyflym yn gallu elwa o'r model newydd, yn enwedig y set ddata ostyngol, gan gyflwyno'r meysydd gorfodol yn unig pe baent yn dymuno gwneud hynny. Gall y Gweithredwyr Parseli Cyflym hynny sy'n gweithredu Rhwydi Gwrth Smyglo i fodloni rhwymedigaethau Diogelwch cyn diwedd y cyfnod pontio barhau i'w defnyddio. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â diwydiant ar ein cynlluniau ar gyfer Rhwydi Gwrth Smyglo yn y dyfodol.

³ Unwaith y bydd y swyddogaeth ar gael, bydd angen Dogfennau Cysylltiedig â Diogelwch Tramwy wrth deithio trwy wledydd Gwledydd Tramwy Cyffredin sydd wedi dewis eu defnyddio. Er mwyn teithio drwy wledydd nad ydynt wedi optio i mewn, bydd yr hepgoriad ar deithio allan yn aros.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chlodwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r gofynion, gan gynnwys hyrwyddo lefel uchel o ansawdd data i sicrhau na fydd arafu diangen ar fasnach gyfreithlon. Rydym hefyd yn sicrhau bod y llwybrau presennol ar gyfer mynd i'r afael ag ymholiadau a phroblemau cludwyr yn gweithio i'r eithaf.

Proses diwygio datganiadau diogelwch

Mae gwaith ymgysylltu blaenorol â rhanddeiliaid hefyd wedi nodi, yn yr amgylchedd 'Rowlio arno Rowlio allan' (RoRo) sy'n symud yn gyflym, nad oes gan rai cludwyr yr holl wybodaeth Diogelwch ofynnol i gyflwyno datganiad 2 awr cyn i nwyddau fynd i mewn i Brydain Fawr, yn ôl y rheol ar hyn o bryd ar gyfer teithiau môr byr. Mae'n rhaid i ddatganiadau Diogelwch fod mor gywir a chyflawn â phosibl pan gânt eu cyflwyno. Ond mae modd gwneud gwelliannau os bydd rhywbeth yn newid, er enghraifft, swm y nwyddau neu amser croesi'r môr. Rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom gan fasnachwyr a barn y Llywodraeth yw y dylai'r broses datganiadau diogelwch bresennol, sy'n caniatáu i ddatganiadau gael eu diwygio hyd y dylai'r pwynt cyrraedd fynd i'r afael yn ddigonol â'r sefyllfaoedd hyn.

Pwyntiau i'w hystyried wrth fwydo'n ôl ar y drafft hwn o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau:

- O ystyried yr angen i sicrhau'r ffin, a oes unrhyw fesurau ychwanegol yr hoffech i ni eu hystyried, er mwyn lleihau baich rheolaethau Diogelwch o fewn cyd-destun fframwaith WCO.
- A oes unrhyw gyfleoedd ychwanegol i ddarparu effeithlonrwydd data drwy'r Ffenestr Fasnach Sengl.
- A yw'r ddogfen hon yn rhoi digon o fanylion i ddechrau gwneud paratodau ar gyfer y model Diogelwch newydd; os byddai angen rhagor o wybodaeth arnoch i baratoi ar gyfer cyflwyno rheolaethau Diogelwch.
- Gellir diwygio Datganiadau Mynediad Diogelwch (ENS) hyd at adeg cyrraedd. Ydych chi'n ymwybodol o'r broses hon?

1.3 Y model nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol newydd ar gyfer Prydain

Cefndir

Mae rheolaethau mewnforio yn elfen hanfodol o bob bioddiogelwch effeithiol a systemau iechyd cyhoeddus. Maen nhw'n amddiffyn iechyd y cyhoedd, iechyd planhigion ac iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r rheolaethau'n rhoi sicrwydd, maent yn caniatáu rhyng-gipio llwythi nad ydynt yn cydymffurfio ac maent yn galluogi olrhain

nwyddau os bydd digwyddiad yn codi. Mae rheolaethau'n sicrhau bod gan ddefnyddwyr hyder mewn cynhyrchion planhigion ac anifeiliaid wedi'u mewnforio ac maent yn sail i'n hallforion i'n partneriaid masnachu byd-eang. Mae'r bygythiadau a ofynnwyd i iechyd y cyhoedd drwy fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid, ac anifeiliaid byw, byth yn bresennol ac yn ddeinamig a bydd ein rheolaethau yn adlewyrchu ac yn ymateb i hyn, gan ddiogelu defnyddwyr wrth sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y cynhyrchion y mae arnynt eu heisiau.

Mae'r DU wedi llofnodi cytundebau Sefydliad Masnach y Byd sy'n gofyn am chwarae teg ar gyfer rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol ar draws ein partneriaid masnachu. Mae Cytundeb Glanweithiol a Ffytolanweithiol Sefydliad Masnach y Byd yn cydnabod hawliau pob aelod i ddefnyddio rheolaethau angenrheidiol i ddiogelu eu hiechyd cyhoeddus, anifeiliaid a phlanhigion. Rhaid peidio â defnyddio mesurau mewn ffordd fympwyl neu wahaniaethol.

Mae'n hanfodol felly bod y Model Gweithredu Targed Ffiniau yn cadw'r dulliau a gydnabyddir ac a ddefnyddir ar draws y byd yn ffociau adeiladu allweddol ar gyfer rheolaethau mewnforio iechyd anifeiliaid, cyhoeddus a phlanhigion. Bydd gwneud hynny'n darparu amddiffyniad i'r DU ac yn sicrhau bod gan ein partneriaid masnachu hyder yn ein hallforion.

Trosolwg o'r model ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

'Er bod gorfodi rheolaethau bioddogelwch yn gyfrifoldeb datganoledig, mae cael cyfundrefn rheoli ffiniau cydlynol ar draws y DU er budd pawb ohonom. Felly, mae Llywodraeth Cymru, yr Alban a'r DU wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r model newydd ar gyfer mewnforion nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol.

Drwy'r Model Gweithredu Targed Ffiniau, ein nod yw creu system ffiniau fodern gyda system symlach ac effeithiol fyddol o reolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol sy'n ein galluogi i ymateb yn gyflym i newid o ran proffiliau risg. Bydd hyn yn ein helpu i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd, planhigion ac anifeiliaid, rhoi hwb i'n twf economaidd, a lleihau ffrithiant ar y ffin.

Rydym am wella ar y model a ddefnyddir gan yr UE mewn nifer o ffyrdd, drwy gyflwyno;

- dull sy'n seiliedig ar risg, wedi'i dargedu at reolaethau ffiniau swyddogol ar fewnforion o bob tarddiad;
- cynlluniau peilot cynlluniau sicrhau Masnachwyr Dibynadwy sy'n darparu tystiolaeth gredadwy i gefnogi gwaith hwyluso a;
- symleiddio a digideiddio sy'n gwneud y defnydd gorau o ddata.

Caiff nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol eu categoreiddio ar sail y risg cynhenid (uchel, canolig neu isel) y mae'r nwyddau'n ei achosi i iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a bioddogelwch, ochr yn ochr ag unrhyw risg sy'n benodol i'r wlad enedigol. Bydd lefel y rheolaethau a ddefnyddir yn gymesur â'r

risg, er enghraifft pa mor gyffredin yw plâu neu glefydau a safon rheolaethau iechyd swyddogol.

Wrth ddatblygu'r model mewnfurio byd-eang ar gyfer nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol rydym wedi cydbwysu'r angen i amddiffyn y DU rhag bioddiogelwch a bygythiadau iechyd cyhoeddus; yr angen i roi amser i fusnesau a phartneriaid masnachu baratoi, ac felly atal aflonyddwch i ddefnyddwyr; a pha mor gyflym y gellir rhoi'r dechnoleg a'r seilwaith ar waith.

Yn allweddol i'r model mae llywodraethu trawswladol o'r dull newydd sy'n seiliedig ar risg o gynnal rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol. Bydd y llywodraethu a'r arbenigedd hwn dan sylw yn hanfodol i sicrhau bod y model yn ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn gallu cadw'r DU yn ddiogel.

Yn rhan o'r model newydd byddwn yn treialu cynlluniau sicrhau Glanweithdra a Ffytolanweithdra newydd ar gyfer Masnachwyr Dibynadwy awdurdodedig. Cydlunnir y cynlluniau peilot â diwydiant dros 2023 cyn iddynt fynd yn fyw o fis Ionawr 2024 ymlaen. Bydd cynlluniau peilot ar wahân ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion ac ar gyfer cynnyrch anifeiliaid risg canolig, hynny yw cynhyrchion o darddiad anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Gellid ystyried rhywfaint o fwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad ydynt yn anifeiliaid i'w cynnwys yn y dyfodol.

Bydd y cynlluniau peilot hyn yn ceisio datblygu sicrwydd sy'n cyfateb i reolaethau swyddogol drwy adeiladu ar systemau a data presennol sydd gan fasnachwyr ar waith i reoli bioddiogelwch a risgiau diogelwch bwyd yn uniongyrchol gyda goruchwyliaeth y llywodraeth. Cynhelir pob aelod o'r cynlluniau hyn i safonau bioddiogelwch a diogelwch bwyd uchel y DU a byddant yn cael opsiynau gwahanol ar gyfer rhoi sicrwydd o'r fath i ni, gan archwilio ystod o fanteision i fasnachwyr yn gyfnewid (e.e. gostyngiad yn lefel gwiriadau Safleoedd Rheoli Ffiniau).

Mae manylion y cynigion penodol ar gyfer cynhyrchion planhigion ac anifeiliaid wedi'u nodi yn yr adrannau isod. Er mai cynlluniau peilot yn unig fydd y rhain ar hyn o bryd, y bwriad yw bod mor uchelgeisiol â phosibl yn eu dyluniad er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl wrth warchod bioddiogelwch, iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd. Byddem yn croesawu diddordeb gan yr holl brif fewnforwyr bwyd wrth gymryd rhan yn y cynlluniau peilot.

Bydd llywodraethu'r cynlluniau peilot hyn yn cael eu goruchwyllo gan y strwythurau llywodraethu trawswladol a nodir uchod, gan sicrhau na fydd y cynllun peilot ac unrhyw gynllun sy'n esblygu ohonynt yn peryglu bioddiogelwch, iechyd anifeiliaid a lles y DU, iechyd y cyhoedd nac amddiffyniadau defnyddwyr. Bydd gwerthusiad cadarn a manwl o'r cynlluniau peilot, sy'n cydbwysu buddion yn briodol i fasnachwyr a sicrwydd bioddiogelwch a diogelwch bwyd, yn cael ei wneud cyn gwneud unrhyw benderfyniad i'w graddfa.

Diogelwch Bwyd

Gwytwnch a dibynadwyedd cadwyni cyflenwi bwyd, a sicrhau nad oes unrhyw darfu ar ddefnyddwyr, yw un o brif amcanion y Llywodraeth fel y nodir yn Strategaeth Fwyd Llywodraeth. Wrth weithredu'r drefn reoli newydd hon am y tro cyntaf ar fewnforion yr UE, byddwn yn monitro'r ystod o risgiau posibl yn ofalus, gan gynnwys y rhai a allai effeithio ar gadwyni cyflenwi bwyd a defnyddwyr. Lle bo'n bosibl byddwn yn gweithio gyda mewnforynwr i geisio rheoli'r risgiau hynny mewn ffordd strwythuredig, gan ystyried a oes dulliau priodol wrth gefn y gallwn eu defnyddio pe bai angen. Rydym yn cydnabod y bydd y model newydd hwn ar gyfer mewnforynwr nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol yn gofyn i rai busnesau a'u cadwyni cyflenwi addasu eu modelau busnes. Mae manylion sut y byddwn yn gweithio i gefnogi busnesau sy'n gweithredu modelau gwahanol ar gyfer mewnforynwr nwyddau hyn [wedi'u nodi isod](#).

Llywio'r adran hon o'r ddogfen

Mae'r adrannau isod yn gosod manylion sut mae'r model newydd yn berthnasol i wahanol fathau o nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol:

- Mae'r adran ar fewnforynwr anifeiliaid byw, cynhyrchion eginol, cynhyrchion o darddiad anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad ydynt yn anifeiliaid yn esbonio sut i fewnforynwr nwyddau hyn i Brydain o dan y model newydd.
- Mae'r adran ar fewnforynwr planhigion a chynhyrchion planhigion yn esbonio sut i fewnforynwr nwyddau hyn i Brydain o dan y model newydd.
- Dilyniad y ddwy adran ar fewnforynwr planhigion a chynhyrchion anifeiliaid gan fanylion yr amserlen ar gyfer gweithredu'r model newydd ar gyfer nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol a throsolwg o sut y byddwn yn gweithio i gefnogi modelau gwahanol o fewnforynwr megis rheoli grwpiau ac ail-allforio.
- Mae teithiau defnyddwyr enghreifftiol manwl ar gyfer mewnforynwr i Brydain nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol wedi'u nodi yn Atodiad C.

Pwyntiau i'w hystyried wrth ateb Cwestiwn 2 ar y drafft hwn o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau

- Effaith y cyfundrefnau nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol newydd ar eich cadwyn gyflenwi pa un ai a ydych yn fewnforynwr neu'n allforiwr.
- Effaith y drefn newydd ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol ar eich model busnes penodol, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o grwpio ar gyfer mewnforynwr.
- Sut y gallai'r cynlluniau peilot ar gyfer Cynlluniau Masnachwyr Dibynadwy ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol weithredu'n effeithiol.

Mewnforio Anifeiliaid Byw, Cynhyrchion Tarddiad Anifeiliaid a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Catogoreiddio risg

Bydd anifeiliaid byw, cynhyrchion eginol, cynhyrchion o darddiad anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu catogoreiddio yn risg uchel, risg ganolig, neu risg isel. Bydd gan bob categori lefel gymesur o reolaeth.

Bydd y catogoreiddio'n seiliedig ar y risg gynhenid y mae'r nwyddau'n ei hachosi i iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a bioddiogelwch, ac iechyd y cyhoedd, ochr yn ochr â'r risgiau sy'n benodol i'r wlad darddiad e.e. pa mor gyffredin yw plâu/clefydau a safon rheolaethau iechyd swyddogol. Mae hyn yn golygu y gallai nwyddau o un wlad fod yn y categori risg isel ond gallai'r un nwyddau o wlad wahanol fod yn y categori risg canolig.

Mae asesiad risg o nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol fesul cyfuniad gwlad/nwyddau, yn parhau. Mae Defra, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban a'r cymheiriaid datganoledig yn cwblhau model asesu risg lefel gwlad ar gyfer mewnfornion byd-eang o anifeiliaid byw, eginol a chynhyrchion anifeiliaid. Unwaith y cytunir ar y catogoreiddio drwy'r fforwm gwneud penderfyniadau technegol trawswladol perthnasol, cyhoeddir allbynnau'r model erbyn diwedd Ebrill 2023 ar gyfer yr UE ac erbyn diwedd Gorffennaf 2023 ar gyfer gweddill y byd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan fusnesau 6 mis i baratoi cyn i reolaethau gael eu cyflwyno neu eu newid. Y disgwyl yw na fydd y rhan fwyaf o nwyddau'n newid o'u catogoreiddio cychwynnol ond gan nad yw'r risg yn statig, bydd y model yn ddeinamig ac os bydd nwyddau priodol yn cael eu symud i fyny ac i lawr y categorïau a thrwy hynny gynyddu neu leihau rheolaethau.

Ffurf ddangosol y categorïau hyn, yn amodol ar gwblhau asesiadau risg, fydd:

- **Risg uchel:** anifeiliaid byw, anifeiliaid dyfrol byw a chynhyrchion eginol (gydag eithriadau wedi'u cyhoeddi ar gyfer anifeiliaid gyda mesurau diogelu neu sicrwydd ychwanegol neu sy'n cyflwyno risg is) a nwyddau wedi'u cynnwys dan fesurau diogelu.
- **Risg canolig:** cig amrwd, oer, cig wedi'i rewi, cynnyrch cig, llaeth, sgil-gynhyrchion anifeiliaid i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, cynhyrchion pysgodfeydd ac anifeiliaid dyfrol sy'n cael eu mewnfornio yn gynhyrchion o darddiad anifeiliaid.
- **Risg isel:** cynhyrchion wedi'u prosesu yn sefydlog ar silff megis cyfansoddion a chynhyrchion cig tun, sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi'u prosesu a chynhyrchion pysgodfeydd penodol a chynhyrchion anifeiliaid dyfrol o wledydd risg is.

Yn ogystal, gellir troshaenu'r fframwaith hwn ag asesiad o gydymffurfiaeth mewnfornwyr yn achos cynlluniau masnachwyr dibynadwy (gweler adran "Masnachwr Dibynadwy", isod). Bydd ystyriaethau risg eraill, gan gynnwys

gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg, hefyd yn cael eu bwydo i mewn cyn cytuno ar benderfyniadau ar gategoreiddio.

Rheolaethau a gaiff eu cymhwyso i anifeiliaid byw, eginol a chynhyrchion anifeiliaid yn seiliedig ar eu categori risg

O dan y drefn newydd bydd rheolaethau yn cael eu defnyddio i nwyddau sy'n seiliedig yn gymesur ar eu gategoreiddio risg:

- Bydd mewnforio llwythi sy'n cael eu gategoreiddio yn rhai **risg uchel** (anifeiliaid byw yn bennaf, cynhyrchion eginol a nwyddau o dan fesurau diogelu) yn gofyn am raghysbysu, tystysgrifau iechyd symlach, gwiriadau dogfennol a gradd uwch o wiriadau ffisegol ac adnabod. Gan amlaf, bydd anifeiliaid byw yn cael gwiriadau manylion adnabod a ffisegol 100%. Mae rhai eithriadau i'r gofyniad am wiriadau 100% wedi'u cynllunio ar gyfer anifeiliaid megis ceffylau iechyd uchel (e.e. ceffylau hil) o wledydd risg isel, rhai anifeiliaid sŵolegol a rhai anifeiliaid dyfrol byw.
- Bydd mewnforio llwythi sy'n cael eu gategoreiddio yn rhai **risg canolig** yn gofyn am raghysbysu, tystysgrifau iechyd symlach, gwiriadau dogfennol ac yn cael gwiriadau adnabod sy'n seiliedig ar risg a gwiriadau ffisegol ar y ffin. Yn achos llawer o'r rhain pennir 1% o wiriadau ffisegol a manylion adnabod, er y bydd rhai nwyddau eraill yn sylweddol uwch yn seiliedig ar risgiau penodol. Caiff cynllun masnachwyr dibynadwy ei dreialu ar gyfer llwythi risg canolig.
- Yn achos mewnforio llwythi sy'n cael eu gategoreiddio yn rhai **risg isel** defnyddir ychydig iawn o reolaethau ffiniau arferol. Ni fyddai unrhyw ofyniad ar gyfer ardystio iechyd na gwiriadau ffiniau ffisegol arferol. Bydd angen darparu set ddata rhaghysbysu a dogfennau masnachol ar gyfer pob cynnyrch anifeiliaid risg isel. Byddai angen i nwyddau sy'n cael eu dosbarthu yn rhai risg isel fynd i mewn drwy borthladd sydd â Safle Rheoli Ffiniau wedi'i ddynodi ar gyfer y math hwnnw o nwyddau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r rheolaethau y bydd eu hangen, yn ôl pob categori risg.



The table below sets out the controls and indicative checks for each risk category. For example there will be no routine checks on low risk goods.

| Consignmen t Risk (Country risk x commodity risk) | Example Animal Products | Health Certificates | Pre- notification requirements | Indicative checks % | | | Indicative Checks % Under the current regime |
|--|---|---------------------------------------|---|---------------------|------------|-------------|---|
| | | | | Doc | ID | Physical | |
| High Risk | Live animals and commodities covered under safeguard measures | Export Health Certificate required | Full Pre-notification requirements | 100% | 100%* | 100%* | 100% Identify 100% Physical |
| Medium Risk | Raw, chilled, frozen meat/ meat products/ dairy; ABP for use in animal feed; medium risk fishery products imported as products of animal origin | Export Health Certificate required | Full Pre-notification requirements | 100% | 1% - 30%** | 1% - 30%*** | 100% Identify 15-30% Physical |
| Low Risk | Processed, shelf-stable products such as composites and canned meat products, processed animal by-products and certain fish products | No Export Health Certificate required | Pre-notification data to allow traceability | 0% | 0% | 0% | 100% Identify 1-5% Physical |

* Certain live animals (e.g. high health equines) may be subject to a reduced level of ID and physical checks dependent upon species but would still be classed as high risk
 ** Typically 1-30% with many products only requiring 1% identify and or physical checks. However, in some circumstances some products with specific requirements may require up to 100% on ID checks.
 *** Risk categories won't be directly comparable, but gives indication of the different approaches taken

Ffigur 3: Canran yr archwiliadau fesul categori risg

Mae'r rheolaethau yn adlewyrchu natur y risg. Tynnir rheolaethau mewnforio rheolaidd ar gyfer nwyddau risg isel, ar wahân i raghysbysu am resymau olrhain ac achosion sicrwydd eraill. Yn y categori risg canolig mae dull haenog o ymdrin â lefel y gwiriadau yn seiliedig ar asesiad risg y wlad/nwyddau. Er bod y dosbarthiad hwn yn parhau'n ddeinamig ac y gall lefel y gwiriadau amrywio, yn achos llawer o gynhyrchion disgwylir na fydd angen ond 1% o brawf adnabod a gwiriadau ffisegol gyda'r cynhyrchion risg uwch yn amodol ar lefelau gwirio uwch. Er na fydd cynhyrchion anifeiliaid risg isel yn gofyn am archwiliad arferol ar Fan Rheoli'r Ffin, rhaid iddynt barhau i gyrraedd trwy bwynt mynediad gyda Safle Rheoli Ffiniau, gan fod hyn yn cysylltu ag awdurdod iechyd porthladd i weinyddu'r rhaghysbysiad, ac os bydd tystiolaeth leol yn awgrymu bod angen archwiliad ffisegol o lwyth risg isel, Safle Rheoli Ffiniau yw'r lleoliad mwyaf addas i hyn ddigwydd,

Mae'r dull canlynol yn sicrhau ein bod yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng diogelu'r DU rhag risgiau bioddiogelwch a hwyluso masnach:

- Dull sy'n seiliedig ar risg lle cedwir cyfraddau gwirio rheolaidd ar gyfer y nwyddau risg uchaf, llai ar gyfer y rhan fwyaf o nwyddau risg canolig a'u tynnu'n gyfan gwbl ar gyfer nwyddau risg isel;
- Ni fydd angen i bob gwiriad ddigwydd mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau, gall gwiriadau dogfen ddigwydd cyn i'r nwyddau gyrraedd, ac ychydig o lwythi fydd yn cael eu dewis ar gyfer gwiriadau adnabod a rhai ffisegol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau;
- Bydd tystysgrifau iechyd symlach ar gael i'n partneriaid masnachu;
- Gellir addasu cyfraddau gwirio llwythi i adlewyrchu risg. Mae hyn yn caniatáu inni gynnal archwiliadau rheolaidd ar lefel sy'n angenrheidiol i ddiogelu bioddiogelwch, iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ymateb i risg sy'n newid heb ofyn am ddeddfwriaeth newydd.

Gwiriadau Ffin yn achos Anifeiliaid Byw

Ar hyn o bryd mae rheolaethau dros dro wedi eu cynnal ar bwynt cyrchfan ar gyfer anifeiliaid byw sy'n cyrraedd o wledydd yr UE. Bydd dadansoddiad risg fesul rhywogaeth yn ystyried a fyddai modd parhau i gynnal rhai gwiriadau ar y mewndir. Gallai hyn olygu y byddai angen rheolaethau neu brosesau ychwanegol arnynt. Wrth i Safleoedd Rheoli Ffiniau fynd ar-lein drwy gydol 2024, bydd gwiriadau ar anifeiliaid byw yn symud i'r rhain pan fo angen.

Bydd Safleoedd Rheoli Ffiniau anifeiliaid byw dynodedig yn parhau i gael eu cyhoeddi ar GOV.UK, a bydd y broses ddynodi yn aros gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion).

Gwiriadau Ffin yn achos Cynhyrchion Anifeiliaid

Wrth i weithrediadau manwl y Model Gweithredu Targed Ffiniau gael eu datblygu, bydd gofynion a gwybodaeth bellach am Safleoedd Rheoli Ffiniau yn cael eu cyhoeddi. Bydd Safleoedd Dynodedig Rheoli Ffiniau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar GOV.UK, ac (yn Lloegr) bydd y broses ddynodi yn aros gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar gyfer cynhyrchion o darddiad anifeiliaid.

Mae manylion am weithredu seilwaith ffiniau mewndirol a'r tâl am wiriadau a gynhaliwyd ynddynt wedi'u nodi yn [Adran 3](#) o'r ddogfen hon.

Llywodraethu

Darperir gorchwyliaeth dechnegol o'r dull newydd ar sail risg drwy banel o arbenigwyr rheoli risg ledled Prydain Fawr ledled y DU, o dan gadeiryddiaeth Defra, ac sy'n cynnwys dadansoddwyr risg, rheolwyr risg a chynrychiolwyr polisi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, (sy'n cynghori Llywodraethau'r DU a Chymru), a Safonau Bwyd yr Alban, ochr yn ochr ag arbenigwyr polisi iechyd y cyhoedd a rheoli clefydau o Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac o'r gwahanol lywodraethau.

Caiff argymhellion ar gyfraddau gwirio eu cydlynu gan y timau diogelwch bwyd perthnasol, iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid ac mae'n destun cytundeb Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid ledled y DU, Asiantaethau Iechyd y Cyhoedd ledled y DU a Sefydliad Cenedlaethol Diogelu Planhigion y DU, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, DAERA, Safonau Bwyd yr Alban, ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU fel y bo'n briodol.

Maent yn monitro achosion newydd o glefydau a rhai sy'n dod i'r amlwg a materion diogelwch bwyd ledled y byd ac yn asesu'r risg y gallai clefydau ddod i mewn i'r DU trwy fasnach mewn anifeiliaid byw, cynhyrchion eginol neu gynhyrchion anifeiliaid (cyfreithlon neu anghyfreithlon), drwy symud bywyd gwyllt, neu drwy symud pethau fel pryfed a allai gario clefyd. Mae'r asesiadau achosion hyn yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch sut i reoli neu leihau'r risgiau.

Mae tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o salwch a gludir gan fwyd a achosir gan halogiad gyda bacteria, firysau, cemegau ac ati yn cael eu monitro i reoli risgiau a achosir gan ffynonellau bwyd o wledydd allforio.

Os bydd risgiau'n cynyddu neu'n lleihau ac mae angen i nwyddau symud rhwng categorïau risg, bydd masnachwyr yn cael 3 mis o rybudd fel y gallant addasu eu prosesau yn ôl yr angen, oni bai bod angen gweithredu amddiffynnol ar frys. Bydd y gallu i gymhwyso mesurau rheoli brys ar unrhyw nwyddau sy'n peri risg sydd ar fin digwydd i iechyd pobl neu anifeiliaid yn cael ei gadw.

Mae dulliau sydd eisoes wedi'u sefydlu ar waith i atal cynnyrch rhag cael ei fewnforio i Brydain o ardaloedd sydd ag achosion o bla neu glefyd hysbys.

Dull Masnachwr dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid

Bydd data, technoleg a pherthnasau dibynadwy yn cael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth gadarn i fyny'r afon sy'n caniatáu i brosesau gael eu symud i fwrdd o'r ffin a gwella llif y nwyddau. Mae Defra, y Llywodraethau Datganoledig, a'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi archwilio sut y gall cynlluniau masnachwyr dibynadwy yn fwy cyffredinol chwarae rhan mewn diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd wrth leihau'r baich ar ddiwydiant.

Mae cynlluniau masnachwyr dibynadwy yn gysyniad sydd wedi hen ennill ei blwyf y tu allan i faes rheolaethau Glanweithiol a Ffytolanweithiol, er enghraifft statws Gweithredwr Economaidd Awdurdodedig (AEO) ar gyfer tollau sy'n caniatáu symleiddio gweithdrefnau tollau a llai o wiriadau. Ochr yn ochr â chydannau craidd, a gydnabyddir yn rhyngwladol y cynllun bioddiogelwch, ychwanegir rôl arloesol ar gyfer sicrwydd masnachwr. O fewn y cynllun ar gyfer rheoli nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol, bydd masnachwyr sydd wedi'u fetio a'u monitro yn cael eu gwahodd i gymryd mwy o atebolrwydd am fioddiogelwch a diogelwch bwyd yn rhan o gynllun peilot.

Bydd aelodaeth o gynlluniau Masnachwyr Dibynadwy yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r llywodraeth a bydd yn galluogi masnachwyr i roi systemau ar waith i reoli bioddiogelwch a risgiau diogelwch bwyd dan oruchwyliaeth y llywodraeth. Byddant yn cael eu cynnal i safonau bioddiogelwch a diogelwch bwyd uchel y DU, ond bydd ganddynt opsiynau gwahanol ar gyfer rhoi sicrwydd o'r fath i ni, gydag ystod o fanteision i fasnachwyr yn gyfnewid am hynny.

Rydym yn archwilio creu dau gynllun masnachwr dibynadwy mewn cynnyrch anifeiliaid yn rhan o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau: y Cynllun Masnachwr Dibynadwy Achrededig a'r Cynllun Sicrwydd Technoleg.

Wrth iddo ddatblygu, bydd dull masnachwr y Model Gweithredu Targed Ffiniau yn cael ei asesu yn ôl pum egwyddor lefel uchel isod:

1. Amddiffyn neu wella bioddiogelwch domestig iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd.

2. Cynnal marchnadoedd allforio.
3. Lleihau baich a chostau i ddiwydiant.
4. Darparu buddion a lleihau costau i'r llywodraeth (gan gynnwys costau rhedeg).
5. Hygyrch i gymaint o feintiau a mathau o fusnesau â phosib, gan gynnwys mentrau bach a chanolig.

Crynodeb o'r cynlluniau masnachwyr dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid

Cynllun Masnachwr Dibynadwy Achrededig

Byddai treialu'r cynllun Masnachwr Dibynadwy Achrededig yn caniatáu i fewnforwyr cynhyrchion o darddiad anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid o bosibl leihau'r angen am archwiliadau ffisegol rheolaidd yn y Safle Rheoli Ffiniau drwy gymryd cyfrifoldeb am gynnal archwiliadau a samplu rheolaidd i sicrhau diogelwch bioddiogelwch, anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd wrth gael ei reoleiddio'n agos gan y llywodraeth.

Defnyddir cynlluniau peilot i sefydlu'r meini prawf aelodaeth terfynol ond fel isafswm, bydd aelodau'r Cynllun Masnachwyr Dibynadwy Achrededig:

- Yn fusnes cofrestredig yn y DU at ddibenion tollau;
- Yn meddu ar hanes cydymffurfio da (lle mae ar gael);
- Yn meddu ar berson/au cyfrifol ar gyfer nodi, rheoli a monitro risgiau;
- Yn gweithredu gweithdrefnau gweithredu safonol a lunnir gan y llywodraeth i sicrhau sicrwydd cyfatebol o ran diogelu iechyd y cyhoedd a bioddiogelwch;
- Yn meddu ar safleoedd a seilwaith bioddiogel;
- Yn darparu sicrwydd o'r naill ben i'r llall yn y gadwyn gyflenwi;
- Wedi hyfforddi staff addas sy'n gallu gweithredu'n annibynnol.

Mae'n hanfodol bod y Cynllun Masnachwyr Dibynadwy Achrededig yn cael ei gydlunio gan y llywodraeth a'r diwydiant, felly bydd busnesau uchelgeisiol yn rhan o gynllun peilot, gyda'r bwriad o sicrhau bod y model sydd wedi'i gydlunio ar gael i bob busnes wedi hynny.

Bydd angen asesu ac adolygu cynlluniau peilot mewn perygl llawn wrth iddynt symud ymlaen i sicrhau bod y mesurau sydd ar waith yn rhoi sicrwydd cyfatebol yn ymarferol. Byddant yn ceisio adeiladu ar arferion y diwydiant wrth ddatblygu gofynion am sicrwydd, gyda dyluniad y cynllun terfynol wedi'i gwblhau ar ôl i'r cynlluniau peilot hyn ddigwydd.

Bydd y cynllun peilot yn ystyried:

1. System gyffredinol – beth yw strategaeth gyffredinol busnes ar gyfer cydymffurfio ag amodau mewnfario? Sut mae'n adolygu ei system, sut mae'n bwriadu cytuno ar amrywiadau gyda'r Awdurdod Cymwys?
2. Gallu i Orlhain – sut mae'n olrhain cynnyrch gan gynhyrchydd gwreiddiol drwodd i fanwerthwr?
3. Sicrwydd cyflenwyr - pa lefel o gysondeb sydd ganddo yn y gadwyn gyflenwi, beth mae'n gofyn amdano o ran sicrwydd, sut mae'n dilysu?
4. Beth yw'r gofynion o ran achredu ar gyfer safle?
5. Pa ddata/tystysgrifau y mae'n eu casglu a faint o hyn y mae'n ei rannu â'r Awdurdod Cymwys?
6. Sut mae'r masnachwr yn ymdrin â llwythi nad ydynt yn cydymffurfio?
7. Sut mae'r masnachwr yn ymdrin â digwyddiadau hysbysadwy eraill?
8. Sut bydd y masnachwr yn gweithio gyda ni i ganiatáu inni archwilio
9. Meini prawf ar gyfer aelodaeth, ffioedd ac ymdrin â diffyg cydymffurfio â rheolau cynllun.

Oherwydd yr amrywiad mewn modelau busnes a defnyddio grwpiau (gweler rhagor o fanylion ar y rhain [isod](#)), efallai y bydd angen datblygu sawl cynllun peilot gyda manteision a phrosesau amrywiol y mae ar ddiwydiant eu hangen.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei adeiladu o amgylch pedwar cyfnod allweddol:

1. Datblygu polisi fframwaith craidd.
2. Cyfnod ymgeisio agored gyda dull wedi'i dargedu a chynefino.
3. Datblygu Cynlluniau Peilot gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraethau Datganoledig, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban a diwydiant.
4. Treialu a gwerthuso.

Mae goruchwyliaeth swyddogol, gwirio ac archwilio yn hollbwysig yn y cyfnod peilot. Gallai'r fframwaith lefel uchel ar gyfer y cynlluniau peilot gynnwys:

- a. gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi (o ble mae'r cynhyrchion yn dod, sut maen nhw'n cael eu cynhyrchu, gan bwy ac ati).
- b. sicrwydd cynhyrchu - rheolau/rheoliadau i gynhyrchwyr gynnal (archwilio), samplu a phroffion cynhyrchion ac ati.
- c. gwiriadau cyn cyrraedd (er enghraifft mewn hyb ar dir mawr Ewrop).
- d. sicrwydd wrth deithio - tracwyr tymheredd, seliau digidol ac ati.
- e. gwiriadau wrth gyrraedd cyrchfan (gan gynnwys pwy sy'n eu cyflawni a'r cymwysterau sydd ganddynt/hyfforddiant y maent wedi'i gael).
- f. defnydd a rhannu data perthnasol i lywio lefelau cydymffurfio a nodi diffyg cydymffurfio.

Amcan cynlluniau peilot fydd gwerthuso sut y gall y Masnachwr Dibynadwy gyflawni'r sicrwydd a restrir uchod i allu manteisio ar fuddion y Cynllun Masnachwyr Dibynadwy Achrededig, wrth gynnal y safonau gofynnol.

Caiff gwybodaeth am sut y gall busnesau wneud cais i gymryd rhan ei ryddhau yn dilyn cyhoeddi'r Model Gweithredu Targed. Rhagwelir cyfnod estynedig o gydlunio, ac wedyn y cynlluniau peilot yr ydym yn disgwyl eu cynnal am 6 i 12 mis. Bydd y cynllun peilot wedyn yn cael eu hadolygu'n ffurfiol a bydd cynllun llawn yn dilyn os bydd yn llwyddiannus.

Cynllun Sicrwydd Technoleg (TAS)

Datblygwyd cynigion hefyd ar gyfer cynllun 'cyffyrddiad ysgafnach', a adeiladwyd ar egwyddorion chwe chynllun peilot 2022/3 [Ecosystem Ymddiriedaeth](#), er mwyn sicrhau bod gan fewnforwyr o wahanol fathau a meintiau wahanol gynigion masnachwr dibynadwy. Nod y Cynllun Sicrwydd Technoleg yw defnyddio data sydd eisoes wedi eu casglu gan fusnesau (h.y. data'r gadwyn gyflenwi) a chael mynediad at ddata ychwanegol drwy ddefnyddio dyfeisiau penodol megis seliau digidol a thracwyr tymheredd. Bydd y rhain yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Llywodraeth, gan alluogi gostyngiad cymesur mewn gwiriadau ffisegol.

Dros amser, gallai'r Cynllun Sicrwydd Technoleg ehangu, gan ddefnyddio datblygiadau technolegol wrth iddynt ddod ar gael i ddarparu manteision pellach i fasnachwyr. Caiff hyn ei yrru i raddau gan ganlyniadau Cynlluniau Peilot yr Ecosystem Ymddiriedaeth sy'n profi i ba raddau y gall data a thechnoleg roi sicrwydd i'r Llywodraeth. Bydd cynigion manylach ar gyfer Cynllun Sicrwydd Technoleg yn dod i'r amlwg ar ôl i gynlluniau peilot yr Ecosystem Ymddiriedaeth ddod i ben.

Defnyddir rhagor o profion/ ymgysylltu â rhanddeiliaid i sefydlu'r meini prawf aelodaeth terfynol ond fel isafswm, bydd aelodau'r Cynllun Sicrwydd Technoleg:

- Wedi eu cofrestru neu eu cymeradwyo gan eu hawdurdod lleol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu Safonau Bwyd yr Alban yn fusnes bwyd neu wedi cofrestru gyda, neu eu cymeradwyo gan, Asiantaeth Planhigion ac Iechyd Anifeiliaid yn fusnes sgil-gynhyrchion anifeiliaid;
- Heb unrhyw hanes andwyol o ran cydymffurfio glanweithiol a ffytolanweithiol;
- Yn meddu ar gofnod o raghysbysiadau ers Ionawr 2022 heblaw am gwmnïau sy'n mewnforio o ynys Iwerddon yn unig); a
- Heb unrhyw hanes negyddol ynghylch cydymffurfio â gofynion tollau.

Bydd y cynlluniau Masnachwr Dibynadwy arfaethedig hyn yn rhan bwysig o ddull trawslywodraethol o gynnal cynlluniau Masnachwyr Dibynadwy gan sicrhau eu bod yn fuddiol ac yn hygyrch i ddiwydiant.

Bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid (HRFNAO)

Bydd y rheolaethau ar gyfer bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid yn cyd-fynd yn agos â'r rhai sy'n cael eu cymhwyso i gynhyrchion anifeiliaid yn y categori risg canolig. Bydd Safleoedd Rheoli Ffiniau Dynodedig yn parhau i gael eu cyhoeddi ar GOV.UK, a bydd y broses ddynodi yn aros gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban.

Yn fras, bydd llywodraethu bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid yn parhau i fod o dan y darpariaethau a nodir mewn rheoliadau perthnasol. Mae Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu cynnydd dros dro rheolaethau swyddogol a mesurau brys a fydd yn llywodraethu'r mynediad i Brydain o ran rhai bwydydd risg uchel a bwyd nad yw o darddiad anifeiliaid o rai gwledydd. Byddwn ni'n cynnal adolygiad ehangach i ystyried mesurau a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd o ran rhestru nwyddau o dan y Rheoliad, fel y gallwn ymateb yn gyflym i ffin ddeinamig. Bydd y gofyniad cyfreithiol i adolygu'r mesurau rheoli uwch yn rheolaidd yn parhau gyda'r Awdurdod Priodol, h.y. Gweinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Bydd yr adolygiadau'n parhau i gael eu darparu drwy broses dadansoddi risg uwch gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban ac yn darparu argymhellion i Weinidogion i sefydlu mesurau cymesur sy'n llywodraethu'r mynediad i Brydain o fwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid ar sail nwyddau a gwlad darddiad.

Mewnforio Planhigion a Chynhyrchion Planhigion o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Categori risg

O dan y drefn newydd bydd rheolaethau yn cael eu defnyddio i nwyddau sy'n seiliedig yn gymesur ar eu categori risg. Bydd planhigion a chynhyrchion planhigion wedi'u rheoleiddio yn cael eu categori'n dri phrif gategori risg, isel, canolig ac uchel. Po uchaf yw'r categori risg, y mwyaf i gyd yw'r gofynion sicrwydd a bennir. Mae nwyddau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o gwbl, a'r rhai sy'n gymaint o ffigythyad fel eu bod wedi'u gwahardd yn ddiogel a dim ond o dan randdirymiad neu wrth ddilyn asesiad risg penodol y gellir eu mewnforio.

Mae'r model newydd yn symud i ffwrdd o lefel ddiogel yr UE o 100% o wiriadau ar gyfer planhigion ar gyfer plannu a chynhyrchu gyda risg pla neu glefyd a nodwyd. Bydd hyn yn gostwng i 3-5% (ar gyfer y rhan fwyaf o gynnyrch gydag eithriadau os bydd ffactorau risg penodol yn berthnasol) a 5-100% (ar gyfer planhigion i'w plannu) ym Mhrydain yn dibynnu ar risg. Mae'r dull hwn, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwedd 2021, yn cydnabod bod planhigion yn eu

hanfod yn risg uwch o'u cymharu â chynnyrch ffres, ond mae'n cydnabod y defnydd arfaethedig o blanhigion (e.e. defnydd terfynol neu luosogi/cynhyrchu masnachol).

Nod y drefn arolygu mewnforion newydd sy'n canolbwyntio ar risg ar gyfer Prydain yw sicrhau bod effeithiau gwiriadau iechyd planhigion ar y lefel briodol i faint o risg a achosir gan wahanol categorïau o nwyddau a bod y drefn ffytolanweithiol yn parhau'n briodol i fynd i'r afael â'r risg bioddiogelwch y mae Prydain yn ei wynebu.

Rheolaethau a fydd yn cael eu cymhwyso i Blanhigion a Chynhyrchion Planhigion

Ni fydd y gosodiad diofyn ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion a chynhyrchion eraill a reoleiddir yn Atodiad XI, Rhan A o Reoliad yr UE a ddargedwir 2019/2072 ("Rheoliad Amodau Ffytolanweithiol") yn 100% o wiriadau ond yn hytrach rhwng 3-5% ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion risg canolig a 5-100% ar y cynhyrchion risg uchaf. Pan fo ffactorau risg penodol yn berthnasol, mewn perthynas â chynhyrchion penodol o darddiad penodol, addasir yr amleddau fel y bo'n briodol. Nid oes angen tystysgrifau ffytolanweithiol ar eitemau a restrir yn Rhan C o Atodiad XI i fynd i mewn i Brydain ac nid oes angen archwiliad ffytolanweithiol. Maent wedi eu heithrio o fod yn rhan o drefn arolygu wedi'i thargedu ar sail risg.






Bydd union gyfradd gwirio o fewn categori risg penodol yn seiliedig ar nifer y rhyng-gipiadau a wneir ar nwyddau penodol o wledydd penodol.

Er mwyn sicrhau bod y categori risg yn parhau'n briodol dros amser bydd gwyliadwriaeth gadarn o nwyddau risg isel ar gyfer plâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn cael eu gwneud gan:

- Monitro drwy arolygon sganio Horizon wrth gasglu gwybodaeth i ganfod materion sy'n dod i'r amlwg; a
- Gwyliadwriaeth wedi'i dargedu gan ddefnyddio deallusrwydd/gwybodaeth i ddilyn arweiniad mewn perthynas â bygythiadau penodol.

Bydd cadw golwg ar nwyddau risg isel yn cael ei wneud yn y lleoliadau a'r amseroedd mwyaf priodol, gan gynnwys archwiliadau cysylltiedig ochr yn ochr ag archwiliadau o nwyddau risg uchel a chanolig. Bydd gwyliadwriaeth i lawr yr afon o'r ffin mewn safle yr ymwelir ag e at ddibenion iechyd planhigion eraill.

Bydd y Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd yn lleihau nifer y profion adnabod a'r gwiriadau ffisegol yn sylweddol wrth sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar lwythi mwyaf eu risg o ran bioddiogelwch ac iechyd y cyhoedd. Bydd yn ein galluogi i ganolbwyntio adnoddau ar lwythi mwyaf eu risg i'r DU, a bydd hefyd yn ein galluogi i ehangu cwmpas ein cyfundrefn reoli i gynnwys y nifer fawr o gynhyrchion planhigion a phlanhigion sy'n cael eu mewnforio o'r UE. Mae'r tabl isod yn dangos sut y bydd y drefn newydd yn cymharu â'r drefn a fwriadwyd i'w gweithredu ym mis Gorffennaf 2022 (a fyddai wedi adlewyrchu dull yr UE).

| Risk Category | Plant / product | Checks % | | | Indicative Checks % Under the current regime |
|---------------|---|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|---|
| | | Doc | ID | Physical | Check rates ^{(across 5 risk categories)**} |
| High Risk |  Plants for planting – woody and/or for commercial production | 100% | 100% | 100% | 100% |
| |  Plants for planting – non-woody and for retail sale as outdoor plants | 30% | 30% | 30% | 100% |
| |  Plants for planting – non woody and for retail sale as indoor plants | 5% | 5% | 5% | 5% |
| Medium Risk |  Plant products - identified risk linked to a trade | Generally: 5 (RoW*) and 3 (EU) | Generally: 5 (RoW*) and 3 (EU) | Generally: 5 (RoW*) and 3 (EU) | 100 (reduced frequency for around 60 trades) |
| Low Risk |  All other regulated plant products | 0 | 0 | 0 | 1 |

* In some circumstances some products with specific requirements will be subject to a higher rate of checks and specific set of processes.
 ** A more detailed breakdown of the frequencies of plant health import inspections under the current regime is set out in Annex E for reference

Ffigur 4: Cyfradd y gwiriadau o dan y Model Gweithredu Targed Ffiniau o'i chymharu â threfn bresennol yr UE

(Mae dadansoddiad manylach o amleddau arolygiadau mewnforio iechyd planhigion wedi'i nodi yn Atodiad E).

Gwiriadau Ffin yn achos Planhigion a Chynhyrchion Planhigion

Er mai Safleoedd Rheoli Ffiniau fydd lleoliad gwiriadau ar gyfer rhai planhigion a chynhyrchion planhigion, bydd eraill yn cael eu gwirio ar Bwyntiau Rheoli. Mae Pwyntiau Rheoli yn gyfleusterau arolygu mewndirol lle gall gwiriadau o blanhigion a chynhyrchion planhigion ddigwydd o dan oruchwyliaeth swyddogion tollau. Mae nwyddau sy'n cael eu symud i Bwynt Rheoli o dan reolaeth swyddogion tollau ac ni ellir eu hagor nes bod yr arolygydd (neu'r gweithredwr awdurdodedig) yn bresennol.

Rhaid i Safleoedd Rheoli Ffiniau a Phwyntiau Rheoli fodloni â safonau gofynnol penodol, gan gynnwys ardaloedd arolygu, manau storio/cadw a dadlwytho ardaloedd gyda gorchudd priodol. Nod y rhain yw darparu amgylchedd bioddiogel nes bod nwyddau wedi llwyddo gwiriadau iechyd planhigion. Rhaid i adeiladau Safleoedd Rheoli a Phwyntiau Rheoli Ffiniau fod wedi'u hawdurdodi gan y gwasanaeth tollau'n gyfleuster storio dros dro. Rheolir y gymeradwyaeth olaf hon gan Uned Cymeradwyo Ffiniau Cenedlaethol Llu'r Ffiniau (NFAU) neu drwy CThEF.

Llywodraethu

Bydd amleddau arolygu yn parhau i fod yn ymatebol i fgythyadau risg ac wedi'u hasesu. Bydd is-grŵp trawslywodraethol Bygythiad Mewnforion a Sganio'r Gorwel (sy'n adrodd wrth Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU) yn monitro data mewnforio a rhyng-gipio, a bydd gan Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU awdurdod i newid cyfraddau arolygu mewn ymateb i gynnydd mewn rhyng-gipiadau o blâu neu

fygythiadau newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli pob llywodraeth yn y DU drwy Fframwaith Cyffredin Dros Dro Iechyd Planhigion.

Bydd data rhyng-gipiad ar gael ar System Hysbysu Rhyng-gipio Iechyd Planhigion y DU. Bydd y Fforwm Cynghori Iechyd Planhigion yn cael gwybod am newidiadau arfaethedig yn amleddau arolygu cyn eu cyflwyno.

Monitrir yn barhaus a oes angen mesurau diogelu pellach a bydd prosesau gwyddonol yn asesu'r bygythiadau sy'n newid i fioggiogelwch planhigion. Mae rheoliadau sy'n gysylltiedig â mewnfurion coed a phlanhigion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n aml yn rhan o'r broses hon.

Os nodir bygythiad iechyd planhigion sylweddol, bydd y gyfradd arolygu yn cael ei haddasu ar unwaith. Bydd addasiadau'n sicrhau cysylltiad agos rhwng y risg a aseswyd a'r gyfradd arolygu, a byddai'r meini prawf yn seiliedig ar:

- Achosion o ddiffyg cydymffurfio â gofynion ffytolanweithiol o'u cymharu â nifer y llwythi,
- Natur unrhyw ddiffyg cydymffurfio, er enghraifft os bydd plâu sy'n peri pryder sylweddol wedi eu canfod, bydd hyn yn arwain at lefel uwch o wiriadau na phe bai plâu o risg isel yn cael eu nodi.

Bydd cyfraddau arolygu hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Grŵp Bygythiadau Mewnfurion trawslywodraethol (sy'n cynnwys arbenigwyr iechyd planhigion technegol o bob rhan o'r DU). O ystyried bod amleddau arolygu yn gysylltiedig â ffioedd, byddai newidiadau amlach yn ychwanegu ansicrwydd i fusnesau. Bydd trefn sganio'r gorwel yn cael ei chynnal i ddarparu system rhybudd cynnar ar gyfer plâu a chlefydau planhigion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae manylion am weithredu seilwaith ffiniau mewndirol a'r tâl am wiriadau a gynhaliwyd ynddynt wedi'u nodi yn [Adran 2](#) o'r ddogfen hon.

Dull Masnachwr Dibynadwy ar gyfer Planhigion - Statws Gweithredwr Awdurdodedig

O dan y Statws Gweithredwr Awdurdodedig (AOS), cynigir y gall masnachwr, gyda phersonél a systemau rheoli mewnol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, sicrhau cydnabyddiaeth bod lefel eu harbenigedd yn ddigonol i gyflawni gwiriadau mewnfurion ffisegol a manylion adnabod.

Dirprwyir cyfrifoldeb dros berfformio gwiriadau mewnfurion ffisegol i weithredwyr preifat sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Bydd y meini prawf yn cynnwys sicrhau bod eu safle wedi'i ddynodi'n Bwynt Rheoli, y mae set o ofynion seilwaith ar ei gyfer, lle bydd angen archwiliadau systemau manwl o brosesau.

Bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a SASA yn gyfrifol am archwilio Gweithredwyr Awdurdodedig. Bydd yr hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer nwyddau mewnfurion Gweithredwr Awdurdodedig. Penderfynir ar gymhwysedd drwy arwydd ffurfiol gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion/SASA a bydd hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gyfer Gweithredwyr Awdurdodedig.

O ganlyniad i Statws Gweithredwr Awdurdodedig, bydd gan Weithredwyr Awdurdodedig hyblygrwydd i gynnal y gwiriadau yn eu safle busnes (pwynt rheoli dynodedig) ar adeg sy'n addas iddynt. Bydd ffi i adennill cost y cynllun, megis archwiliadau a hyfforddiant.

Crynodeb o'r cynllun Statws Gweithredwr Awdurdodedig (AOS) ar gyfer mewnfurio Planhigion a Chynhyrchion Planhigion

Bydd y meini prawf cymhwysedd yn cynnwys:

- Bod yn fusnes cofrestredig yn y DU - Rhaid bod y busnes wedi'i sefydlu yn y DU at ddibenion tollau; wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol y DU fel gweithredwr proffesiynol; wedi ymrwmo i gytundeb ag Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a SASA;
- Person 'Awdurdodedig' a 'Chyfrifol' Dynodedig- Bydd y Person Awdurdodedig yn cynnal y gwiriadau, tra bydd gan y Person Cyfrifol awdurdod lefel bwrdd, gweithredu'n bwynt cyswllt a bydd ganddynt atebolrwydd cyffredinol am statws y sefydliad;
- Prosesau mewnol wedi'u dogfennu ar gyfer archwilio a rheoli risgiau bioddiogelwch;
- Safle bioddiogel (dynodiad pwynt rheoli ac awdurdodiad ghan y gwasanaeth tollau);
- Hyfforddiant ar gynnal gwiriadau iechyd planhigion, gan gynnwys canfod a nodi plâu a chlefydau cwarantyn yn rhagarweiniol; a
- Bydd y busnes yn cofnodi sut y bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli'n fewnol a sut y lleiheir y risgiau o ran bod yn ddiuedd.

Bydd cyfrifoldebau Gweithredwr Awdurdodedig yn cynnwys:

- Sicrhau bod gan y cyflenwr dystysgrifau ffytolanweithiol angenrheidiol;
- Cyflwyno rhag-hysbysiad (lanlwytho copi wedi'i sganio o'r dystysgrif ffytolanweithiol) a datganiad tollau;
- Datgan nwyddau i'w harchwilio;
- Perfformio archwiliadau ffisegol sy'n seiliedig ar risg a nodi gwiriadau ac adrodd ar ganlyniad yr arolygiadau hynny wrth awdurdod iechyd planhigion perthnasol y DU.

Gwrthdaro Buddiannau

Ni ddylai fod unrhyw reswm na ellir hyfforddi busnes preifat ac ymddiried ynddo i gynnal gwiriadau mewnfurio dibynadwy yn y ffordd y mae corff cyhoeddus yn ei gwneud. Bydd

rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng bioddiogelwch a masnach y gall busnesau eu hwynebu mewn perthynas â'r Statws Gweithredwr Awdurdodedig yn allweddol.

Bydd cod moeseg y bydd y Gweithredwr Awdurdodedig a'r person cyfrifol yn ymrwymo iddo ac yn ei ddiweddarau bob blwyddyn yn cael ei gynnwys, ynghyd â'r defnydd posibl o ddangosyddion gweladwy megis logos gan y busnes i ddangos ei fod yn cydymffurfio. Bydd busnesau'n drafftio cynlluniau ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau yn fewnol, gyda gweithdrefnau clir y gall y Person Awdurdodedig roi gwybod am bla i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion/SASA.

Cydymffurfio

Bydd diffyg cydymffurfio â gofynion cynllun yn sbarduno camau cywiro gan y Person/Gweithredwr Awdurdodedig. Bydd diffyg cydymffurfio mewn meysydd hanfodol yn arwain at dynnu'r awdurdodiad yn ôl. Mae ystod o fesurau gorfodi meddalach (cyngor, arweiniad, llythyrau) a chosbau sifil a throseddol cryfach yn cael eu hystyried, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Paratoir mesurau cydymffurfio tuag at y rhai sydd, er enghraifft, yn ceisio dinistrio llwythi heb roi gwybod am y pla neu'r clefyd i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r SASA, sy'n ffugio cofnodion arolygiad neu sy'n dosbarthu'r llwyth cyn cwblhau archwiliadau, yn y gobaith y bydd yn osgoi canlyniadau negyddol i'r busnes. Bydd hyn yn cysylltu â Strategaeth Ffiniau 2025 a'r symudiad tuag at reoleiddio ymatebol, gan ganiatáu gorfodi gwahaniaethol (ymatebol) yn seiliedig ar broffil ac ymddygiad y busnes dan sylw.

Dyluniad y Cynlluniau Peilot ac amserlenni

Byddwn yn ystyried canlyniadau'r cynllun peilot yn ofalus cyn cyflwyno Statws Gweithredwr Awdurdodedig. Ni fydd cynhyrchion pren yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cyfnod peilot; bydd yr holl blanhigion a chynhyrchion planhigion eraill yn cael eu cynnwys. Ar gyfer y planhigion a'r cynhyrchion planhigion risg uchaf, bydd lliniaru ac amodau penodol, megis samplu labordy systematig i brofi am haint cudd.

Caiff Statws Gweithredwr Awdurdodedig ei dreialu mewn dau gam.

Pan fydd deddfwriaeth yn caniatáu, bydd y cam cyntaf yn cynnwys treialu a phrofi cydrannau unigol o Statws Gweithredwr Awdurdodedig, gan gynnwys profi elfennau megis y llwyfan hyfforddi ar gyfer Gweithredwyr Awdurdodedig ac agweddau ar y broses archwilio. Bwriedir cynnal hwn ar gyfer **Hydref 2023**.

Yn amodol ar lwyddiant y treialu unigol ar gydrannau, cychwynnir cynllun peilot llawn o'r naill ben i'r llall o **fis Ionawr 2024 ymlaen**. Bydd cyfleoedd i gryfhau unrhyw elfennau nad ydynt yn sicrhau rheolaethau bioddiogelwch digonol, wrth sicrhau bod y broses yn effeithlon i'r Gweithredwr Awdurdodedig.

Bwriad y cyfnod peilot llawn yw bod ar draws Prydain gyfan, a bydd yn anelu at gynnwys mewnforwyr o bob cwr o Gymru, Lloegr a'r Alban, ac amrywiaeth o Fentrau Bach a

Chanolig ac endidau mwy. Bydd yn agored i grŵp dan reolaeth o fusnesau ar sail wirfoddol. Ni fydd unrhyw ffioedd a thaliadau sy'n gysylltiedig â'r peilot llawn a bydd yn profi pob elfen o'r broses.

Er mwyn treialu'r system mor llawn a chywir â phosib, bydd angen i fusnesau peilot gael Pwynt Rheoli dynodedig. Gall busnesau sy'n dymuno ennill Statws Gweithredwr Awdurdodedig ddechrau symud ymlaen gyda'u cais am ddynodi'r Safle Rheoli rhwng nawr a chanol 2024. Bydd hyn yn galluogi busnesau i bontio'r bwch rhwng dechrau 2024, pan fydd disgwyl i Safleoedd Rheoli Ffiniau fynd yn fyw, ac yn ddiweddarach yn 2024 pan allent gael mynediad llawn i'r Cynllun Gweithredwr Awdurdodedig. Unwaith y dynodir Pwynt Rheoli, byddai'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion/SASA yn gallu cynnal gwiriadau mewnforio ar safle Pwynt Rheoli eu busnes.

Er yn y pen draw bydd y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n cefnogi Statws Gweithredwr Awdurdodedig yn cael eu darparu ar gyfer ein gwasanaethau digidol, i ddechrau mae'n debygol y bydd angen cyflawni rhai prosesau â llaw adeg y cynllun peilot. Rydym yn disgwyl i Weithredwr Awdurdodedig gyfleu canlyniad eu gwiriadau i Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion/SASA i ddechrau, a fydd yn eu tro yn mynd i mewn i'r System Mewnforio Cynhyrchion, Anifail, Bwyd a Bwyd a Bwyd anifeiliaid (IPAFFS).

Symleiddio a digideiddio tystysgrifau iechyd

Ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid i Brydain byddwn yn symleiddio tystysgrifau iechyd allforio, gan gael gwared ar fanylion diangen. Caiff y tystysgrifau iechyd allforio symlach newydd ar gyfer cynhyrchion o darddiad anifeiliaid eu cwblhau a'u cyhoeddi erbyn diwedd Ebrill 2023 gyda thystysgrifau ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar gael yn fuan wedyn. Bydd y symleiddio hwn yn cynnal y rheolaeth sydd ei hangen ac yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer gwall gweinyddol drwy ail-fformatio'r tystysgrifau. Bydd hefyd yn symud canllawiau am dystion o'r dystysgrif ei hun i atodiad. Bydd partneriaid masnachu Gweddill y Byd yn gallu defnyddio'r tystysgrifau iechyd allforio symlach unwaith y bydd y broses o gyflwyno i wledydd yr UE wedi ei chwblhau.

Mae tystysgrifau ffytolanweithiol wedi'u symleiddio ac maent ar gael i fasnachwyr yr UE a Gweddill y Byd.

Bydd tystysgrifau ffytolanweithiol electronig (ePhyto) ar gyfer mewnforion yn dechrau cael eu cyflwyno o fis Mai 2023 ymlaen. Mae'r gwaith o ddigideiddio tystysgrifau iechyd allforio yn parhau, gyda'r bwriad o gyflwyno'n ehangach ar gyfer Hydref 2024.

Mae digideiddio tystysgrifau yn caniatáu i'r manylion angenrheidiol gael eu clonio o'r tystysgrifau swyddogol a gynhyrchir yn system TG y gwledydd allforio megis TRACES yn yr UE. Bydd hyn yn lleihau'r amser a gymerir i gwblhau'r hysbysiadau ym Mhrydain. Bydd tystysgrifau'n cael eu darparu'n awtomatig i systemau Prydain pan gânt eu lanlwytho gan y milfeddyg neu'r swyddog swyddogol yn y wlad allforio. Ni fydd angen meddalwedd trydydd parti ar fewnforwyr i gael mynediad i'r tystysgrifau hyn.

Mae cyflwyno ardystiad wedi'i ddigideiddio yn dibynnu ar ddiddordeb a chytundebau â'n partneriaid masnachu. Rydym yn disgwyl gallu darparu ardystiad wedi'i ddigideiddio ar gyfer mewnfario cynhyrchion planhigion a phlanhigion o fis Mai 2023 ymlaen a chynhyrchion anifeiliaid gan Aelod-wladwriaethau'r UE sy'n defnyddio'r System Rheoli Masnach ac Arbenigol (TRACES) o fis Hydref 2024 ymlaen.

Amserlen ar gyfer Gweithredu'r model Glanweithiol a Ffytolanweithiol newydd

Mae rheolaethau ar gyfer y nwyddau risg uchaf eisoes ar waith a bydd y model Glanweithiol a Ffytolanweithiol newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser, gan ddechrau'n gyntaf gyda rheolaethau critigol i amddiffyn bioddiogelwch, iechyd anifeiliaid a chyhoeddus y DU.

Yn **Hydref 2023** byddwn:

- Yn cyflwyno tystysgrifau iechyd allforio a thystysgrifau ffytolanweithiol ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid risg canolig a nwyddau ffytolanweithiol a fewnforiwyd o'r UE.
- Dechrau gwiriadau dogfen sampl ar nwyddau risg canolig o'r UE, ond ni fydd rheolaethau arferol newydd yn cael eu cynnal ar y nwyddau hyn ar y ffin, felly i ddechrau ni fydd unrhyw daliadau am wiriadau dogfen nac ataliadau i'w harchwilio.
- Derbyn cyflwyniad tystysgrifau iechyd allforio symlach o'i gymharu â'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer masnach Gweddill y Byd. Bydd y tystysgrifau iechyd allforio symlach newydd ar gyfer cynhyrchion o darddiad anifeiliaid yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi erbyn diwedd Ebrill 2023, gyda thystysgrifau ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar gael yn fuan wedyn. Bydd y symleiddio hwn yn cynnal y rheolaeth sydd ei angen ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer gwall gweinyddol drwy ail-fformatio'r tystysgrifau. Bydd hefyd yn symud canllawiau am dystion o'r dystysgrif ei hun i atodiad. Bydd partneriaid masnachu Gweddill y Byd yn gallu defnyddio'r tystysgrifau iechyd allforio symlach unwaith y bydd y broses o gyflwyno i wledydd yr UE wedi ei chwblhau.

Ym **mis Ionawr 2024**⁴ bydd trefn mewnfario newydd fyd-eang ar sail risg ar gyfer nwyddau'r UE a nwyddau nad ydynt yn yr UE yn cael ei gweithredu. Yn benodol:

- Caiff y gwiriadau newydd ar y ffin ar nwyddau tarddiad risg canolig yr UE yn cael eu cyflwyno.
- Bydd y gofynion ar gyfer rheolaethau mewnfario ar blanhigion risg isel a chynhyrchion planhigion o wledydd y tu allan i'r UE yn cael eu dileu ac ni fyddant yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr UE.
- Ni fydd angen tystysgrifau iechyd a gwiriadau rheolaidd ar y ffin mwyach ar gyfer mewnfario risg isel o wledydd nad ydynt yn yr UE ac eithrio ymyriadau sy'n cael eu harwain ar sail gwybodaeth am gynhyrchion anifeiliaid risg isel. Bydd gofyn i'r holl nwyddau y mae'r rheolaethau iechyd mewnfario hyn yn berthnasol iddynt fynd i mewn drwy bwynt mynediad sydd â'r dynodiad Safle Rheoli Ffiniau perthnasol neu Safle Rheoli ar gyfer y nwyddau hynny.

O **fis Hydref 2024 ymlaen** byddwn yn symleiddio ymhellach reolaeth masnachwyr o ran gofynion Glanweithiol a Ffytolanweithiol, yn sgil cyflwyno Ffenestr Masnach Sengl y DU a

⁴ Fel y nodir yn [adran 3](#). Bydd y dyddiadau gweithredu ar gyfer yr ail a'r drydedd garreg filltir mewn porthladdoedd sy'n derbyn nwyddau Gwyddelig yn uniongyrchol i Iwerddon ar arfordir y gorllewin yn cael eu cadarnhau yn fersiwn derfynol y model Gweithredu Targed Ffiniau.

fydd yn dileu dyblygu gwaith ar draws setiau data cyn-gyrraedd pan fo'n bosibl. Ac erbyn hyn ymhen amser byddwn yn disgwyl i bob gwiriad ar anifail byw fod wedi symud o'u pwynt cyrchfan i Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan fod y rheini wedi dod yn weithredol.

Cefnogi modelau busnes gwahanol ar gyfer mewnfario llwythi grwpiau o nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

Rydym yn gwerthfawrogi y gallai rheolaethau mewnfario newydd ar nwyddau'r UE ei gwneud yn ofynnol i fusnesau addasu eu modelau busnes. Un o brif amcanion cyhoeddi'r ddogfen ddrafft hon yw casglu adborth ar sut y gallwn gefnogi busnesau o bob maint i wneud y newidiadau gofynnol.

Yn gyffredinol, bydd 'grwpio' yn golygu symudiad o nwyddau lle mae llwythi lluosog gyda thystysgrifau iechyd ar wahân yn cael eu cludo ar un lori/cynhwysydd. Gall hyn gynnwys cyfuno llwythi mewn canolbwynt neu gasglu llwythi o bwyntiau codi lluosog cyn eu hallforio.

Bydd angen i fusnesau sy'n defnyddio grwpiau i fewnfario nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol i'r DU gynllunio'n ofalus sut maent yn bwriadu mewnfario yn y dyfodol, gan y gallai fod gan wahanol nwyddau ofynion gwahanol ac y gallai un methiant i gwblhau'r rhain greu oedi i lwyth wedi'i grwpio. O ystyried bod llawer o'r gwaith gweithredol o ddarparu grwpiau o'r UE-Prydain yn pwyso ar ardystiwyd yr UE, Awdurdodau Cymwys, ac allforwyr, bydd ymgysylltu â'r UE yn bwysig cyn cyflwyno'r rheolaethau mewnfario hyn a bydd yn rhan greiddiol o ymgysylltiad y Llywodraeth â'n partneriaid masnach.

Mae rheolaethau mewnfario yn cyflwyno dwy her i fusnesau sy'n ymgymryd â symudiadau grwpiau o nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol:

1. I fusnesau sy'n symud cynhyrchion anifeiliaid, mae cael tystysgrifau iechyd allforio lluosog ar gyfer llwythi lluosog yn yr un llwyth yn gymhleth yn logistaidd. I fasnachwyr sy'n dibynnu ar rannu lle mewn llwyth cymysg â busnesau eraill, mae cael tystysgrif iechyd allforio i symud llwythi bach yn golygu mwy o gost na llwythi mwy.
2. I fasnachwyr sy'n dibynnu ar rannu lle mewn llwyth cymysg â busnesau eraill, mae cael tystysgrif iechyd allforio i symud llwythi bach yn golygu mwy o gost na llwythi mwy.

Gall yr heriau hyn fod yn aciwt i fewnforwyr y DU sy'n symud nwyddau risg canolig o'r UE mewn symiau bach, ac rydym am ymgysylltu'n agos â busnesau yn y categori hwn dros y cyfnod ymgysylltu.

Grwpio cynnyrch anifeiliaid

Bydd y Model Gweithredu Targed Ffiniau yn hwyluso symudiadau grwpiau trwy ddarparu trefn sy'n cael ei graddnodi yn ôl risg:

- Ni fydd angen tystysgrif iechyd allforio ar gynhyrchion anifeiliaid risg isel i fynd i mewn i Brydain ac ni fydd yn amodol ar wiriadau ffiniau rheolaidd yn ddiodyn. Bydd hyn yn symleiddio'r driniaeth o lwythi grwpio sy'n cynnwys cynhyrchion risg isel.
- Bydd cynhyrchion anifeiliaid risg canolig yn cael lefelau llai o ymyrraeth ar y ffin â manylion adnabod a lefelau gwirio ffisegol yn is nag ar hyn o bryd (ar gyfer mewnfario o Weddill y Byd). Lle nad oes angen tystysgrif iechyd allforio ar gyfer cynhyrchion, caiff y cymhlethdod o sicrhau tystysgrif ar gyfer llwythi grwpiau ei ddileu. Pan fo cynhyrchion yn ddarostyngedig i ddim, neu lefelau llai, o fanylion adnabod a

neu wiriadau ffisegol ar y ffin, bydd y risg o lwyth sy'n cydymffurfio mewn llwyth cymysg sy'n cael ei gadw yn cael ei leihau neu ei ddileu.

- Anaml y caiff cynhyrchion anifeiliaid risg uchel eu symud gan ddefnyddio grwpio, ond byddai bob amser yn amodol ar ardystio a gwiriadau ar y ffin.

Mae'r gwahanol ddulliau o ymdrin â llwythi grwpiau wedi'u gosod isod ochr yn ochr â'n dull arfaethedig o'u cefnogi:

- **Hybiau Atgyfnerthu**-Daw llwythi unigol at ei gilydd mewn un safle (e.e. mae loriâu o wahanol rannau o'r UE yn cyrraedd hyb yng Ngwlad Belg. Efallai fod llwythi wedi'u ardystio cyn gadael.). Mae'r swyddog ardystio yn yr hyb yn cwblhau ardystiadau ar gyfer llwythi unigol sy'n cael eu rhoi ar lori sy'n mynd i'r DU (mae'r gofyniad i dystysgrifau gynnwys rhifau Cofrestru Cerbydau wedi'u dileu, ond efallai fod manylion eraill wedi newid, yn enwedig lle mae llwyth yn cael ei rannu.). Caiff llwythi unigol eu llwytho gyda'i gilydd, a bydd milfeddyg swyddogol (OV) yn selio'r lori cyn iddi adael am ei chyrchfan. Wedyn nodir y rhif selio ar bob tystysgrif. Rydym yn bwriadu gweithio gyda busnesau sy'n defnyddio'r model hwn o grwpiau i archwilio sut y gellid cronni ardystiadau i leihau beichiau, wrth diogelu bioddiogelwch ac iechyd pobl ar yr un pryd.
- **Dewis lluosog** – Mae llwythi'n cael eu hychwanegu at lori mewn gwahanol safle ac wedi'i ardystio ar bob man codi. O dan y model hwn gellir defnyddio sêl i'r llwyth/lori gyffredinol gan Filfeddyg Swyddogol a'i dynnu ar bob un pigiad gyda chofnod yn cael ei gadw trwy dystysgrif o ddiffyg trin. Fel arall, gellir defnyddio sêl i baledi unigol o fewn y llwyth (llwythi unigol). Byddwn yn gweithio gyda mewnforwyr a chwmnïau logisteg sy'n bwriadu defnyddio'r model hwn o grwpiau i sicrhau y lleiheur cymhlethdod a chost o dan y model newydd.

Grwpio cynnyrch anifeiliaid

Ar gyfer planhigion, gall un dystysgrif ffytolanweithiol eisoes gwmpasu ystod o wahanol blanhigion a chynhyrchion planhigion, nid ydynt yn nwyddau penodol. Mae hyn yn golygu y gall un dystysgrif gwmpasu llwyth cyfan, ni waeth faint o wahanol blanhigion a chynhyrchion planhigion y mae'n eu cynnwys. Gall cyfansoddiad llwyth grwpio o blanhigion a chynhyrchion planhigion newid yn ystod taith y cerbyd cludo heb effeithio ar y tystysgrifau ffytolanweithiol a roddwyd i lwythi eraill o fewn y llwyth. Ni ddylai cyfansoddiad y llwythau unigol newid ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif ffytolanweithiol. Defnyddir y model hwn yn gyffredin ar gyfer mewnforion nad ydynt yn yr UE, gan gynnwys y rhai a symudwyd gan longau fferi Rholio arnynt a Rholio oddi arnynt sy'n teithio i'r UE.

Pan fydd angen archwilio'n ffisegol un cynnyrch o fewn llwythl ac nid y lleill gall hyn olygu bod yn rhaid dargyfeirio'r llwyth cyfan ar gyfer gwiriad. Byddwn ni'n gweithio gyda mewnforwyr a chwmnïau logisteg sy'n symud llwythi cymysg er mwyn lleihau cymhlethdod a chost o dan y model newydd.

Tramwy nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol trwy Brydain o dan y model newydd

Gall llwythi glanweithiol a ffytolanweithiol sy'n teithio ar draws Prydain hefyd achosi risgiau o ran bioddiogelwch ac iechyd y cyhoedd. Yn unol â'r dull eang o fewnforio masnachol, cynigir system symlach ond effeithiol o reolaethau bioddiogelwch ar gyfer teithiau, sy'n lleihau'r ffrithiant ar y ffin a'r baich gweinyddol i fasnachwyr.

Ar hyn o bryd, ar gyfer llwythi o'r tu allan i'r UE sy'n teithio ym Mhrydain mae angen tystysgrifau teithio sy'n golygu ystod is o ardystiadau. Maent hefyd yn amodol ar wiriadau glanweithiol 100% wrth ddod i mewn a gwiriadau selio wrth ymadael. Caiff anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid hefyd wiriadau glanweithiol 100% wrth gyrraedd, gydag cynhyrchion anifeiliaid hefyd yn cael gwiriadau sêl wrth adael.

Ar gyfer gwiriadau glanweithiol, ac eithrio anifeiliaid byw, rydym yn bwriadu cyflwyno tystysgrifau teithio symlach a symud tuag at lefel gymesur o wiriadau wrth i'r nwyddau hynny sy'n cael eu dosbarthu'n rhai risg canolig ddod i mewn a mynd allan. Bydd angen y tystysgrifau hyn o 31 Hydref 2023 ymlaen ar gyfer nwyddau o'r UE ac rydym yn rhagweld y byddai gwiriadau ar deithiau o lwythi risg canolig yn dechrau ar 31 Ionawr 2024.⁵ Yr unig beth y byddai ei angen ar lwythi risg isel sy'n tramwyo Prydain yw rhaghysbysiad a byddant yn ddarostyngedig yn unig i wylidwriaeth a gwiriadau nad ydynt yn rhai rheolaidd. Rydym yn cynnig parhau i gymhwyso gwiriadau presennol i Weddill y Byd yn teithio y tu hwnt i 31 Ionawr 2024 am gyfnod wrth i ni gynnal asesiad risg pellach a phenderfynu a yw atebion technolegol neu fasnachwr ychwanegol yn gallu rhoi sicrwydd ychwanegol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae anifeiliaid byw yn eu hanfod yn rhai risg uchel. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae anifeiliaid byw yn eu hanfod yn rhai risg uchel. Felly, rydym yn cynnig gofyn am dystysgrifau teithio a gwiriadau 100% wrth ddod i mewn a mynd allan ar gyfer tramwy anifeiliaid byw ond byddwn yn ystyried llai o amleddau gwirio ar gyfer rhywogaethau sydd â sicrwydd ychwanegol e.e. ceffylau iechyd uchel, yn unol â mewnfurion.

Ar gyfer gwiriadau ffytolanweithiol o gynhyrchion planhigion a phlanhigion rydym yn bwriadu cyflwyno dull symlach ynghyd â gwyliadwriaeth a gwiriadau nad ydynt yn rheolaidd i fonitro symudiad nwyddau tramwy. Ni fydd gofyniad rhaghysbysu ar gyfer dod i mewn na mynd allan. Bydd ar y nwyddau angen o hyd ddatganiad wedi'i lofnodi gan ddweud bod y nwyddau o dan dramwy ffytolanweithiol ac yn cael eu pecynnu yn y fath fodd fel nad oes perygl lledaenu plâu drwy Brydain.

Ail-allforio nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol

Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid ar effaith y rheolaethau mewnfurion newydd ar allforion ac ar ail-allforion. O dan y model newydd, ni fydd angen tystysgrif iechyd ar nwyddau glanweithiol a ffytolanweithiol risg isel sy'n cael eu mewnfurio i Brydain. Fodd bynnag, ar gyfer nwyddau sy'n tarddu o'r tu allan i'r UE, gall milfeddyg swyddogol dderbyn y wybodaeth ar dystysgrif iechyd a oedd yn cyd-fynd â'r nwyddau i mewn i Brydain wrth ardystio nwyddau i'w hail-allforio.

Mae'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid hyd yma yn dangos nad oes gan fusnesau bryderon sylweddol am gael ardystiad ar gyfer ail-allforio nwyddau risg isel. Lle mae nwyddau sy'n tarddu o'r UE yn cael eu hail-allforio, ac nad oes angen ardystiad iechyd ar hyn o bryd ar gyfer mewnfurio i fusnesau a bod ardystiwr Prydain eisoes wedi gwneud trefniadau i gael y

⁵ Fel y nodir yn [adran 3](#). Bydd y dyddiadau gweithredu ar gyfer gwiriadau mewn porthladdoedd sy'n derbyn nwyddau Gwyddelig yn uniongyrchol i lwerddon ar arfordir y gorllewin yn cael eu cadarnhau yn fersiwn derfynol y model Gweithredu Targed Ffiniau

wybodaeth ategol berthnasol. Gall hyn naill ai ddod o filfeddyg yn y wlad allforio wreiddiol neu, lle y caniateir, fod yn seiliedig ar ddogfennaeth fasnachol.

Er gwaethaf hyn, mae potensial am gymhlethdod ychwanegol i'r busnesau hynny sy'n ail-allforio nwyddau Gweddill y Byd na fyddant bellach yn dod i mewn i Brydain gyda thystysgrif iechyd o fis Ionawr 2024 ymlaen. Mae canllawiau i gynorthwyo ardystiwywr wrthi'n cael eu datblygu.

Gofynion mewnfario eraill ar gyfer nwyddau Glanweithiol a Ffytolanweithiol

Mae rheolaethau mewnfario penodol ar rai cynhyrchion sy'n deillio o agweddau penodol ar ddeddfwriaeth y DU neu ein haelodaeth o gonfensiynau rhyngwladol sy'n ymdrin â symud y nwyddau hyn. Nid yw Model Gweithredu Targed Ffiniau'n cynnig newid y rheolaethau hyn.

Confensiwn ar gyfer y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Mewn Perygl o Ffawna Gwyllt a Phlanhigion (CITES)

Bydd angen i rywogaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Confensiwn ar gyfer y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Sydd mewn Perygl o Ffawna Gwyllt a Phlanhigion (CITES) barhau i fodloni'r gofynion mewnfario presennol.

Nwyddau organig

Ar hyn o bryd mae cyfnodau gras deddfwriaethol tan ddiwedd 2023 ar gyfer gofynion ardystio sy'n gysylltiedig â safonau marchnata penodol a'r Dystysgrif Arolygu (Cols) ar gyfer organeg o'r UE, gwledydd Ardal Economaidd Ewrop a'r Swistir. Ym mis Mai byddwn yn cadarnhau pryd y bydd angen Tystysgrif Arolygiadau ar gyfer nwyddau organig sy'n dod i mewn i Brydain o'r UE, Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir.

Nid yw'r gofyniad am Dystysgrifau Arolygu ar gyfer nwyddau organig o wledydd Gweddill y Byd yn newid.

Pren

Bydd mewnfario o **bren a chynhyrchion pren** o'r UE yn parhau i fod yn ddarostyngedig i wiriadau diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad yw'r nwyddau wedi cael eu cynaeafu'n anghyfreithlon fel y nodir yn Rheoliad Pren y DU.

Mae Rheoliadau Pren y DU (UKTR) yn berthnasol i fewnfario i Brydain ac i bren sydd wedi'i osod ar y farchnad ym Mhrydain. Prif amcan Rheoliadau Pren y DU yw mynd i'r afael â thorri coed yn anghyfreithlon a chreu galw am bren sydd wedi'i gynaeafu'n gyfreithiol. Mae Rheoliadau Pren y DU yn gwahardd gosod cynhyrchion pren a phren wedi'u cynaeafu'n anghyfreithlon ar farchnad Prydain ac mae'n gofyn i weithredwyr, y rhai sy'n gosod cynhyrchion o'r fath yn gyntaf ar farchnad Prydain, arfer dyledus ddiwydrwydd. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n masnachu mewn pren a chynhyrchion pren ar ôl iddynt gael eu rhoi ar y farchnad gadw cofnodion oddi wrth bwy maent yn prynu cynnyrch pren ac unrhyw fasnachwyr maent yn eu gwerthu iddynt. Mae hyn yn golygu bod modd olrhain pren a chynhyrchion pren.

Dogfennaeth pysgota - Pysgota anghyfreithlon, nas cofnodir ac anrheoledig (IUU)

Rhaid anfon dogfennau pysgota anghyfreithlon, nas adroddwyd ac anrheoledig (tystysgrifau dal, datganiadau prosesu a thystiolaeth o storio) ymlaen llaw at yr awdurdod iechyd porthladd perthnasol, neu'r awdurdod lleol yn yr Alban, ar gyfer mewnforio pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd. Mae rhai eithriadau yn berthnasol fel yr amlinellir yn [Atodiad I o reoliad IUU y DU](#). Mae'r gofynion hyn yn hollol ar wahân, ac yn ychwanegol at ofynion Glanweithiol a Ffytolanweithiol.

Mae angen y dogfennau hyn nawr (gan gynnwys ar gyfer mewnforion o'r UE) ac mae'n rhaid eu hanfon drwy'r e-bost (neu eu darparu'n ffisegol os yw awdurdod iechyd y porthladd/ceisiadau awdurdod lleol yr Alban yn gofyn amdanynt) i'r awdurdod iechyd porthladd/awdurdod lleol perthnasol cyn i'r llwyth gyrraedd. Yn y dyfodol bydd angen lanlwytho'r dogfennau hyn i'n system, y System Mewnforio Cynhyrchion, Anifail, Bwyd a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (IPAFFS), ond byddwn yn darparu hysbysiad cyn i hyn ddod yn ofyniad.

Mae awdurdodau iechyd porthladdoedd ac awdurdodau lleol yr Alban yn codi ffi i adennill costau am wirio'r dogfennau hyn (neu, os ystyrir ei fod yn angenrheidiol, cyflawni archwiliad ffisegol), a phennir y ffioedd hyn gan awdurdod unigol.

Bydd angen i fewnforwyr wirio gyda'r awdurdod iechyd porthladd perthnasol, neu awdurdod lleol yr Alban, beth yw eu gofynion amserlen ar gyfer cyflwyno dogfennau. Yr isafswm amseru sy'n cael eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth yw 72 awr ymlaen llaw ar gyfer mewnforion ar y môr, 4 awr ar gyfer rheilffyrdd neu awyr, a 2 awr ar y ffordd,

Adran 2: Diwydiant ffiniau a gofynion porthladdoedd

Seilwaith

Gofynion seilwaith ar gyfer rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol

Rhaid i anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, bwyd risg uchel a bwyd anifeiliaid o darddiad nad yw o anifeiliaid a phlanhigion risg uchel a chynhyrchion planhigion ddod i mewn trwy borthladd sydd â Safle Rheoli Ffiniau perthnasol (BCP), a elwid gynt yn Safle Arolygu Ffin (BIP). Ar ôl i'r nwyddau gyrraedd, cynhelir unrhyw wiriadau angenrheidiol o ran manylion adnabod a gwiriadau ffisegol. Cyhoeddir rhestr o Safleoedd Rheoli Ffiniau ar GOV.UK a bydd yn parhau i gael ei diweddarau.

Bydd y rhan fwyaf o Safleoedd Rheoli Ffiniau yn cael eu lleoli o fewn porthladd neu faes awyr i gefnogi masnach sy'n mynd drwy'r porthladd. Mae nwyddau Gweddill y Byd eisoes yn ddarostyngedig i reolaethau sy'n gofyn am Safle Rheoli Ffiniau ac mae'r rhain eisoes ar waith yn y porthladdoedd perthnasol. Bydd angen i borthladdoedd ystyried pa newidiadau y gall fod eu hangen ar eu modelau gweithredu er mwyn hwyluso cyflwyno rheolaethau ar nwyddau'r UE. Bydd hyn yn bennaf yn newidiadau i ofynion staffio a seilwaith i adlewyrchu'r cyfraddau gwirio a amlinellir yn y ddogfen hon. Os nad yw porthladd bellach yn gallu cynnal archwiliadau ar fathau penodol o nwyddau, byddai angen i fasnachwyr ddod o hyd i lwybr arall i fewnforio eu nwyddau i'r wlad. Fodd bynnag, mae er budd gweithredwyr porthladdoedd i hwyluso'r fasnach angenrheidiol pan fydd galw. Mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau Safle Rheoli Ffiniau wedi'u cwblhau ac yn barod i gynnal gwiriadau, neu'n barod i dderbyn dynodiad terfynol cyn bod angen.

Bydd angen dynodi Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd neu addasedig wrth ragweld y drefn Model Gweithredu Targed gan yr awdurdodau perthnasol er mwyn ymdrin â gwiriadau: Asiantaeth Safonau Bwyd Defra/Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Lloegr; Gweinidogion Llywodraeth Cymru dros Gymru; Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Safonau Bwyd yr Alban, Awdurdodau Cymwys a Gweinidogion Llywodraeth yr Alban yn yr Alban.

Gall archwilio planhigion a chynhyrchion planhigion hefyd ddigwydd yn y Pwyntiau Rheoli. Mae'r rhain wedi'u dynodi'n gyfleusterau arolygu mewndirol lle gall gwiriadau manylion adnabod a gwiriadau ffisegol ddigwydd o dan oruchwyliaeth. Mae nwyddau a symudir i Bwyntiau Rheoli o dan reolaeth tollau ac ni ellir eu hagor nes bod yr arolygydd (neu'r gweithredwr awdurdodedig) yn bresennol.

Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â'r awdurdodau perthnasol gan ei bod yn debygol y bydd galw mawr am ddynodi cyn cyflwyno rheolaethau. Dylai porthladdoedd sydd wedi adeiladu Safleoedd Rheoli Ffiniau newydd a gefnogir gan Gronfa Seilwaith Porthladdoedd barhau i ymgysylltu â'u Pwynt Cyswllt Sengl Swyddfa'r Cabinet.

Safleoedd Mewndirol

Lle nad oedd gan borthladdoedd ddigon o dir i adeiladu Safle Rheoli Ffiniau er mwyn hwyluso cyflwyno rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol ar nwyddau'r UE, gwnaed trefniadau i'r Llywodraeth(au) adeiladu Safleoedd Rheoli Ffiniau ar Safleoedd Mewndirol.

Bydd cyfleusterau Rheoli Ffiniau mewndirol yng Nghaint yn darparu cyfleusterau ar gyfer nwyddau sy'n mynd i'r DU drwy'r Culfor Byr (Porthladd Dover ac Eurotunnel) a bydd yn weithredol o gyflwyniad gwiriadau ym mis Ionawr 2024.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer adeiladu Safleoedd Rheoli Ffiniau i ddarparu cyfleusterau ar gyfer nwyddau sy'n mynd i'r DU drwy porthladdoedd yng Nghaergybi a de-orllewin Cymru.

Gellir datblygu cynlluniau ar gyfer Safleoedd Mewndirol eraill os ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn dilyn dadansoddiad pellach o'r gofynion gwirio disgwylidig. Gall hyn gynnwys safle posibl yn Cairnryan yn yr Alban.

Mae mapiau o'r Safleoedd Rheoli Ffiniau presennol a ddynodwyd ar gyfer rheolaethau glanweithiol a ffytolanweithiol ym Mhrydain wedi'u nodi yn Atodiad F.

Trefniadau codi tâl mewn Safleoedd Mewndirol

Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd codi tâl ar Safleoedd mewndirol i adennill costau gweithredu sy'n angenrheidiol i gynnal archwiliadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar ei methodoleg a'i thaliadau arfaethedig yn yr wythnosau nesaf i lywio lefelau codi tâl. Y cynnig yw gweinyddu Tâl Defnyddiwr Cyffredin ar bob llwyth sy'n mynd i mewn drwy Borth Dover ac Eurotunnel sy'n gymwys i gael gwiriadau SPS. Byddai'r tâl yn berthnasol i bob llwyth cymwys, pa un ai a ydynt yn cael eu dewis ar gyfer archwiliad Safle Rheoli Ffiniau ai peidio. Amcangyfrifir bod y gyfradd Tâl Defnyddwyr Cyffredin dangosol oddeutu £20-£43, ond penderfynir ar y cyfraddau terfynol yn dilyn ymgynghoriad. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar y polisi hwn. a bydd yn ymgynghori ar ei methodoleg arfaethedig a'i chyfraddau codi tâl yn yr wythnosau nesaf. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar bolisi codi tâl, ac yn gweithio tuag at ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys Safleoedd Rheoli Ffiniau eraill sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth o fewn Prydain Fawr yn y dyfodol.

Mae CThEF hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu ei wasanaethau cyfleuster ffiniau mewndirol ar sail fasnachol a bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynlluniau hyn wrth iddynt ddatblygu,

Cyfleusterau anifeiliaid byw

Ar hyn o bryd mae anifeiliaid byw sy'n cael eu mewnfario o'r UE yn cael gwiriadau wrth gyrraedd eu cyrchfan, a bydd hyn yn parhau nes bod seilwaith y ffin yn barod i symud gwiriadau i Safleoedd Rheoli Ffin. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyfleusterau anifeiliaid byw ar safleoedd mewndirol, a'r cyllid posibl sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau mewn porthladdoedd wrth i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu.

Seilwaith arall ar y ffin

Nid yw'r newidiadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon i agweddau eraill ar y ffin, yn enwedig y model Diogelwch newydd, yn cael effaith ar unwaith ar y seilwaith sydd ei angen mewn porthladdoedd. Dros y ddwy flynedd nesaf rydym hefyd yn gwella ein gallu a'n seilwaith canfod niwclear presennol a fydd yn gwella llif y nwyddau drwy Ffin y DU. Byddwn yn dechrau awtomeiddio ein hystâd ganfod ehangach a fydd yn hwyluso llif y nwyddau ymhellach ac yn gwella diogelwch mewn nifer o borthladdoedd. Rydym yn bwriadu ehangu i ragor o borthladdoedd a gwella'r awtomeiddio hwnnw o 2025 ymlaen. Mae'r Swyddfa Gartref eisoes wedi dechrau ymgysylltu â'r diwydiant ar ei chynlluniau a bydd yn cynnal ymgysylltu pellach dros Wanwyn 2023: mae'n hanfodol bod diwydiant a'r llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu technoleg canfod arloesol, awtomeiddio logisteg a galluogi seilwaith (ffisegol a thechnegol).

Systemau aliniad

Bydd angen i ddiwydiant baratoi ar gyfer pob un o'r cerrig milltir a amlinellir yn y ddogfen hon.

Ar gyfer y garreg filltir gyntaf, bydd diwydiant yn parhau i integreiddio â systemau llywodraeth presennol sy'n cefnogi gweddill y byd Glanweithiol a Ffytolanweithiol (Mewnforio Cynhyrchion, System Anifail, Bwyd a Bwyd anifeiliaid, IPAFFS) a rheolaethau Diogelwch gweddill y byd (S&SGB).

Yn dilyn adborth rhanddeiliaid ar y Model Gweithredu Targed Ffiniau drafft, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am ofynion system gerrig milltir yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant wrth i ni ddiffinio gofynion ar gyfer Ffenestr Masnach Sengl y DU. Bydd hyn nid yn unig ar ffurf ymgysylltu â diwydiant, datblygwyr meddalwedd a Darparwyr Gwasanaethau Cymunedol ar ôl cyhoeddi'r drafft ond bydd yn parhau drwy gydol yr amserlen gweithredu er mwyn galluogi rhanddeiliaid i roi adborth a nodi newidiadau yn eu systemau a'u prosesau eu hunain wrth i bob carreg filltir agosáu.

Bydd angen newidiadau o fewn systemau er mwyn sicrhau manteision y gostyngiad mewn data gofynnol ar gyfer datganiadau Diogelwch. Bydd y gofyniad data llai yn hyblyg wrth ei weithredu a bydd ar gael i'w ddefnyddio o fis Hydref 2024 ymlaen; bydd llwybrau cyflwyno cyfredol yn parhau ar agor, gan gynnwys y gallu i gyflwyno data a sefydlwyd hyd at 37 maes i leihau newidiadau meddalwedd trydydd parti a darparu dull mwy cydweithredol i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn caniatáu i'r newidiadau gael eu gwneud ar adeg sy'n cynyddu'r manteision a lleihau'r tarfu.

Ochr yn ochr â chyflwyno'r gofynion newydd hyn, byddwn yn parhau gyda rhaglenni mudo systemau presennol, gan gynnwys defnyddwyr mudo i Wasanaeth Datganiad Tollau (gan CHIEFS: Trin Tollau o Fewnforio ac Allforio Nwyddau) a Mewnforio Cynhyrchion, System Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (o PEACH) yn unol ag amserlenni ac arweiniad a gyhoeddir. Bydd cyflwyno'r Fersiwn System Tramwy Gyfrifiadurol Newydd 5 yn parhau gyda masnachwyr sy'n cyflwyno datganiadau tramwy trwy'r llwyfan hwn o fis Tachwedd 2023 ymlaen yn unol â'r canllawiau presennol.

Pwyntiau i'w hystyried wrth ateb Cwestiwn 3 ar y fersiwn ddrafft hon o'r Model Gweithredu Targed Ffiniau

- A all fod unrhyw anawsterau gweithredol wrth weithredu rheolaethau mewnforio Glanweithiol a Ffytolanweithiol gan ddefnyddio'r prosesau a'r systemau busnes presennol.
- A fyddai unrhyw newidiadau i systemau yn cael effaith ar gadwyni cyflenwi sensitif.

Adran 3: Amserlen gweithredu ar gyfer y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Amserlen y Model Gweithredu Targed Ffiniau

Bydd y Model Gweithredu Targed Ffiniau newydd yn gofyn am newid technolegol a phrosesau ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat sy'n darparu'r ffin. Rydym yn bwriadu camu i weithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau er mwyn rhoi amser i fusnesau baratoi.

Mae ein amserlen arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i weithredu bioddiogelwch hollbwysig a rheolaethau diogelwch i gadw'r DU yn ddiogel a sicrhau bod busnesau'n profi'r model symlaf posibl pan fyddant yn dechrau mewnforio neu fod y newidiadau'n dod i rym. Ein hystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r amserlen oedd:

- yr angen am reoli risgiau bioddiogelwch a diogelwch y wlad yn effeithiol.
- yr angen i roi digon o amser i fusnesau weithredu'r model yn eu systemau a'u prosesau.
- yr angen i sicrhau bod gan gadwyni cyflenwi amser i addasu ac nad oes amharu arnynt.
- pa mor gyflym y gallwn weithio gyda rhanddeiliaid i adeiladu'r systemau a'r seilwaith sydd ei angen o dan y model newydd, gan gynnwys cyflwyno Ffenestr Masnach Sengl y DU.

Yn seiliedig ar ein trafodaeth gyda diwydiant rydym felly'n cynnig y cerrig milltir mawr hyn ar gyfer cyflwyno'r model:

- 31 Hydref 2023 - Cyflwynir tystysgrifau iechyd allforio a thystysgrifau ffytolanweithiol ar gyfer cynhyrchion risg canolig anifeiliaid a chynhyrchion planhigion a phlanhigion a fewnforir i Brydain o'r UE.
- Diwedd 2023 - hepgorwyr parhaol a gyflwynwyd o'r gofyniad i gyflwyno datganiadau Diogelwch ar rai categorïau o symudiadau risg isel - pysgod sydd wedi'u dal ym moroedd tiriogaethol y DU ac a laniwyd y tu allan i'r DU, sy'n tramwy allan a rhai nwyddau porthladd rhydd sy'n symud allan.
- 31 Ionawr 2024⁶ - Cyflwynir gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol a manylion adnabod ar y ffin ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid risg canolig, planhigion a chynhyrchion planhigion a fewnforir i Brydain o'r UE. Cyflwynir y model byd-eang o reolaethau ar gyfer gweddill mewnforion y byd, Ni fydd angen tystysgrifau iechyd mwyach ar gyfer nwyddau risg isel ac ni fydd angen hysbysiad ymlaen llaw mwyach ar gyfer planhigion risg isel a chynhyrchion planhigion.
- 31 Hydref 2024 - Mae angen datganiadau Diogelwch ar gyfer mewnforion yr UE. Ochr yn ochr â hyn, bydd defnyddio Ffenestr Masnach Sengl y DU yn osgoi dyblygu gwaith ar draws setiau data cyn-gyrraedd lle bo hynny'n bosibl.

⁶ Fel y nodir yn [adran 3](#). Bydd y dyddiadau gweithredu ar gyfer yr ail a'r drydedd garreg filltir mewn porthladdoedd sy'n derbyn nwyddau Gwyddelig yn uniongyrchol o Iwerddon ar arfordir y gorllewin yn cael eu cadarnhau yn fersiwn derfynol y model Gweithredu Targed.'

Amserlen ar gyfer gweithredu rheolaethau ar nwyddau Gwyddelig sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o Iwerddon i borthladdoedd Prydain

Yn unol â chyflwyno rheolaethau ffiniau ar fewnforion yr UE a nodir yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau, bydd busnesau o Iwerddon yn wynebu gwiriadau a rheolaethau newydd wrth symud nwyddau Gwyddelig (h.y. unrhyw nwyddau nad ydynt yn nwyddau cymwys yng Ngogledd Iwerddon) o borthladdoedd Iwerddon (e.e. Porthladd Dilyn a Rosslare Europort) yn uniongyrchol i Brydain Fawr (e.e. Porthladd Lerpwl a phorthladd Caergybi). Yn ogystal â gweithredu'r rheolaethau bioddiogelwch a diogelwch newydd a nodir yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau hwn ar nwyddau Gwyddelig sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i Brydain Fawr, byddwn hefyd yn cyflwyno rheolaethau tollau llawn ar gyfer y symudiadau hyn, gan newid y trefniadau presennol sy'n berthnasol pan fydd y nwyddau hyn yn cyrraedd porthladdoedd Prydain Fawr sy'n derbyn traffig o borthladdoedd Iwerddon.

Rydym am weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cyflwyno'r rheolaethau hyn yn cael ei wneud yn effeithiol.

Yn unol â'r Model Gweithredu Targed Ffiniau ehangach, ar **31 Hydref 2023** byddwn yn cyflwyno Rhaghysbysu, Tystysgrifau Iechyd Allforio a Thystysgrifau Ffytolanweithiol ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid risg canolig Iwerddon, cynhyrchion planhigion a phlanhigion sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i borthladdoedd Prydain. Ochr yn ochr â hyn, bydd rheolaethau tollau llawn yn cael eu cyflwyno ar gyfer nwyddau sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i borthladdoedd Prydain.

Byddwn yn cadarnhau pryd a sut y byddwn yn cyflwyno: gwiriadau dogfennol, ffishgol a manylion adnabod SPS; a datganiadau Diogelwch ar gyfer nwyddau sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i Brydain yn y Model Gweithredu Targed Ffiniau terfynol rydym yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn sicrhau bod gan fewnforwyr, porthladdoedd a busnesau Iwerddon o leiaf chwe mis i baratoi ar gyfer unrhyw ddyddiad cau ar gyfer rhoi'r rheolaethau hyn ymlaen.

Llywio'r adran hon


Mae'r adran hon yn nodi tair amserlen i helpu'r sector preifat i ddeall a pharatoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol ar y ffin.

- A) Amserlen grynodol yn nodi sut y bydd y model Gweithredu Targed Ffiniau newydd yn cael ei weithredu rhwng Hydref 2023 a Hydref 2024 (heblaw am nwyddau sy'n symud yn uniongyrchol o Iwerddon i borthladdoedd Prydain [fel y nodir uchod](#))..
- B) Bydd map crynodol sy'n nodi sut y bydd holl newidiadau'r llywodraeth ar y ffin cyn 2025 yn effeithio'n gadarnhaol ar y profiad o fasnachu ar gyfer mewnforwyr ac allforwyr.
- C) Amserlen ddrafft ar gyfer cyflwyno Ffenestr Masnach Sengl y DU yn nodi pan fydd disgwyl i nodweddion newydd ar gyfer mewnforwyr ac allforwyr ddod ar-lein.

Rydym yn arbennig o chwilio am adborth ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau a'r heriau y gallai'r sector preifat eu hwynebu wrth ei gyfarfod. Fodd bynnag, **ein bwriad pendant yw bwrw ymlaen â'r garreg filltir gyntaf, cyflwyno ardystiad iechyd ar nwyddau risg canolig megis cig a chynnyrch llaeth i'w mewnfario i Brydain o'r UE, ar 31 Hydref 2023. Dylai mewnforyr a'u cadwyni cyflenwi ddechrau paratoi ar gyfer y garreg filltir hon nawr i sicrhau eu bod yn barod.**


Amserlen A: Amserlen grynodol ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau

Summary timeline for implementation of the Border Target Operating Model



Amserlen B: Cynllun trawsnewid ffiniau cyffredinol

Overall border transformation forward plan



Amserlen darparu Ffenestr Masnach Sengl y DU

Dull

Bydd Ffenestr Masnach Sengl y DU yn cael ei chyflwyno'n ailadroddus trwy gyfres o ddatganiadau strategol, a phob un yn ychwanegu mwy o ymarferoldeb a darparu profiad gwell i ddefnyddwyr, wrth ymgorffori adborth o fersiynau cynharach. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at Ffenestr Masnach Sengl y DU yn bwynt mynediad unigol i ddefnyddwyr gyflwyno data ar y ffin i asiantaethau ar y ffin.

